# Canllawiau Statudol a Chod Ymarfer

# Gwasanaethau Maethu

**Mae'r canllawiau statudol hyn a'r Cod Ymarfer yn ymwneud â Rheoliadau Maethu (Darparwyr Gwasanaethau Maethu ac Unigolion Cyfrifol) (Cymru) 2019**

DRAFFT

**Ebrill 2019**

Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014

Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016

## Ynglŷn â’r canllawiau hyn a'r cod ymarfer

### Statws

Paratowyd y ddogfen hon ar gyfer darparwyr gwasanaethau maethu annibynnol yng Nghymru. Mae’n berthnasol o fis Ebrill 2019 ymlaen.

Mae Penodau 1, 3 a 4 o'r ddogfen hon yn ganllawiau statudol ar gyfer **darparwyr gwasanaethau maethu annibynnol**, a gyhoeddir gan Weinidogion Cymru o dan adran 29 o Ddeddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016.

Mae Penodau 2, 3 a 5 o'r ddogfen hon yn god ymarfer statudol ar gyfer **awdurdodau lleol** ynghylch arfer eu swyddogaethau mewn perthynas â darparu gwasanaethau maethu, a gyhoeddir gan Weinidogion Cymru o dan adran 145 o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014.

### Darparwyr gwasanaethau maethu annibynnol

Mae Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016 (Deddf 2016), Rheoliadau a wneir o dan y Ddeddf honno a’r canllawiau statudol hyn yn disodli gofynion a roddwyd ar waith yn flaenorol o dan Ddeddf Safonau Gofal 2000 a’i Safonau Gofynnol Cenedlaethol cysylltiedig.

Mae'r canllawiau hyn yn nodi:

- sut y gall darparwyr gwasanaethau maethu rheoleiddiedig gydymffurfio â'r gofynion a orfodir gan reoliadau a wneir o dan adran 27 o Ddeddf 2016, a
- sut y gall personau a ddynodir yn unigolyn cyfrifol am wasanaeth maethu rheoleiddiedig gydymffurfio â'r gofynion a orfodir drwy'r rheoliadau a wneir o dan adran 28 o Ddeddf 2016.

Mae’r gofynion hyn wedi’u cynnwys yn Rhannau 2, 3, 4, 6, 7, 8, 9, 10, 11 a 12 o Reoliadau Gwasanaethau Rheoleiddiedig (Darparwyr Gwasanaethau Maethu ac Unigolion Cyfrifol) (Cymru) 2019 (“y Rheoliadau”). Bwriedir i'r Rheoliadau hyn ddod i rym yn Ebrill 2019 ac fe ddaw’r canllawiau hyn i rym ar yr un pryd hefyd.

Mae Adran 29(3) o Ddeddf 2016 yn dweud bod rhaid i ddarparwyr gwasanaethau rheoleiddiedig ac unigolion cyfrifol dynodedig **roi sylw i'r canllawiau hyn** wrth fodloni'r gofynion a orfodir drwy reoliadau o dan adrannau 27 a 28 o'r Ddeddf.

Mae'r canllawiau hyn hefyd yn berthnasol i'r darparwyr hynny sy'n gwneud cais i gofrestru fel darparwr gwasanaethau o dan adran 6 o Ddeddf 2016. Mae canllawiau ynghylch cofrestru wedi'u cynhyrchu gan reoleiddiwr y gwasanaeth, sef Arolygiaeth Gofal Cymru, ac mae ar gael ar ei gwefan.

Rhaid i'r sawl sy'n dymuno darparu gwasanaeth rheoleiddiedig wneud cais i gofrestru gydag Arolygiaeth Gofal Cymru sy'n cyflawni swyddogaethau Gweinidogion

DRAFT

Cymru fel rheoleiddiwr y gwasanaeth. Rhaid i ddarpar ddarparwyr gwasanaethau ac unigolion cyfrifol ddangos y byddant yn gallu bodloni'r gofynion a orfodir gan Ddeddf 2016 a'r Rheoliadau ac, ar ôl iddynt gofrestru, y byddant yn dal i'w bodloni.

Er mwyn iddi ganiatáu cais i gofrestru, rhaid i  Arolygiaeth Gofal Cymru fod yn fodlon y bydd unrhyw ddarpar ddarparwr gwasanaethau rheoleiddiedig yn gallu ac y bydd yn parhau i fodloni'r safonau darparu gwasanaethau a bennir yn y rheoliadau o dan adran 27 o Ddeddf 2016. Rhaid i  Arolygiaeth Gofal Cymru fod yn fodlon hefyd fod y sawl a ddynodir yn unigolyn cyfrifol yn gallu ac y bydd yn parhau i gydymffurfio â'r dyletswyddau a restrir yn y rheoliadau o dan adran 28 o'r Ddeddf.

Bydd  Arolygiaeth Gofal Cymru yn defnyddio'r canllawiau hyn i lywio'i phenderfyniadau i ganiatáu neu i wrthod ceisiadau i gofrestru'n ddarparwr gwasanaeth.

Bydd  Arolygiaeth Gofal Cymru hefyd yn defnyddio'r canllawiau hyn i lywio penderfyniadau ynglŷn ag i ba raddau y mae darparwyr cofrestredig ac unigolion cyfrifol yn bodloni’r gofynion hynny.

Mae darparwyr gwasanaethau'n gyfrifol am benderfynu sut y bodlonir y gofynion, gan gadw mewn cof anghenion yr unigolion sy'n defnyddio'r gwasanaeth a'r datganiad o ddiben ar gyfer y gwasanaeth.

**Rhaid i ddarparwyr gwasanaethau cofrestredig ac unigolion cyfrifol dynodedig roi sylw i'r canllawiau hyn.** Os na fyddant yn dilyn y canllawiau hyn, rhaid iddynt roi tystiolaeth i ddangos bod eu ffordd o weithio'n eu galluogi i fodloni’r gofynion yn Rhannau 2, 3, 4, 6, 7, 8, 9, 10, 11 a 12 o'r Rheoliadau.

## Gwasanaethau maethu'r awdurdodau lleol

Mae Adran 94A o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 (a fewnosodir gan adran 58 o Ddeddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016) yn darparu y Caiff Gweinidogion Cymru wneud rheoliadau mewn perthynas â rheoleiddio swyddogaethau'r awdurdodau lleol sy'n ymwneud â phlant sy'n derbyn gofal a phlant sy'n cael eu lletya. Gwnaed y gofynion ar ddarparwyr Gwasanaethau maethu a rheolwyr yr awdurdodau lleol yn y Rheoliadau o dan yr adran hon. Cyn belled ag y bo'n ymarferol, mae'r un gofynion neu ofynion tebyg wedi'u gorfodi ar ddarparwyr gwasanaethau maethu annibynnol ag sydd wedi'u gorfodi ar ddarparwyr gwasanaethau maethu annibynnol yn y Rheoliadau. Mae hyn yn arbennig o wir am y gofynion yn Rhannau 6 i 11 o'r Rheoliadau.

Cyhoeddir y cod ymarfer hwn o dan adran 145 o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, sy'n rhoi'r pŵer i Weinidogion Cymru gyhoeddi codau ar arfer swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol. Rhaid i awdurdodau lleol, wrth arfer swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol, weithredu yn unol â'r gofynion a gynhwysir yn y cod hwn. Nid yw adran 147 o'r Ddeddf (gwyro oddi wrth ofynion mewn codau) yn gymwys i unrhyw ofynion a gynhwysir yn y cod hwn, felly rhaid dilyn y cod hwn yn llawn.

DRAFT

## Strwythur

Mae'r ddogfen hon wedi'i strwythuro fel a ganlyn:

- Pennod 1 – Gofynion cyffredinol ar ddarparwyr gwasanaethau maethu annibynnol
- Pennod 2 – Gofynion cyffredinol ar wasanaethau maethu'r awdurdodau lleol.
- Pennod 3 – Gofynion ar ddarparwyr gwasanaethau maethu annibynnol **a** gwasanaethau maethu'r awdurdodau lleol.
- Pennod 4 – Gofynion ar unigolion cyfrifol (yn gymwys i ddarparwyr gwasanaethau maethu annibynnol yn unig).
- Pennod 5 - Dyletswyddau ar reolwyr gwasanaethau maethu'r awdurdodau lleol (yn gymwys i awdurdodau lleol yn unig).

Mae pob pennod yn y ddogfen yn nodi'r Rheoliad perthnasol ar ochr chwith y dudalen, gyda'r canllawiau cyfatebol / cod ymarfer ar yr ochr dde.

Mae'n bwysig bod darparwyr gwasanaethau maethu annibynnol ac unigolion cyfrifol, a darparwyr a rheolwyr gwasanaethau maethu'r awdurdodau lleol, yn cyfeirio at destun gwreiddiol pob rheoliad fel y ffynhonnell wybodaeth gyntaf am y gofynion a sut i'w bodloni. Mae'r canllawiau hyn a / neu'r cod ymarfer yn esbonio rhagor am sut i fodloni elfennau unigol pob rheoliad lle y gall fod angen rhagor o eglurhad a diffinio. Lle y bydd testun y rheoliad yn hunanesboniadol, ni roddir rhagor o ganllawiau.

Ni ddylid ystyried bod y canllawiau / y cod am elfennau unigol pob rheoliad yn cynnwys pob sefyllfa oherwydd efallai y bydd modd i ddarparwyr gwasanaethau maethu annibynnol ac unigolion cyfrifol, a darparwyr a rheolwyr gwasanaethau maethu'r awdurdodau lleol ddangos eu bod yn bodloni pob elfen o'r rheoliad mewn ffyrdd eraill.

DRAFT

## Rhestr o'r prif dermau a ddefnyddir yn y canllawiau hyn

| Term | Ystyr |
|---|---|
| Deddf 2014 | Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 |
| Deddf 2016 | Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016 |
| Gofal a chymorth | Y gofal a'r cymorth a ddarperir i'r plentyn mewn lleoliad maeth gan y rhiant maeth. |
| Cynllun gofal a chymorth | Cynllun a roddir ar waith gan yr awdurdod lleol o dan adran 83 o Ddeddf 2014 mewn perthynas â phlant sy'n derbyn gofal a phlant sy'n cael eu lletya). |
| Darparwr Gwasanaethau Maethu Annibynnol | Person neu sefydliad sydd wedi'i gofrestru gydag Arolygiaeth Gofal Cymru ( Arolygiaeth Gofal Cymru) i ddarparu gwasanaeth maethu. |
| Gwasanaeth maethu | Gwasanaeth maethu'r awdurdod lleol **neu** wasanaethau maethu annibynnol |
| Darparwr gwasanaethau maethu | Darparwr gwasanaethau maethu'r awdurdod lleol **neu** ddarparwr gwasanaethau maethu annibynnol |
| Canlyniadau personol | • Mewn perthynas ag oedolyn, mae'n golygu'r canlyniadau y mae'r plentyn yn dymuno'u cyflawni.<br>• Mewn perthynas â'r rhiant maeth, mae'n golygu'r canlyniadau y mae yn dymuno'u cyflawni mewn perthynas â'r plentyn. |
| Rheolwr cofrestredig | Y person a benodir gan ddarparwr gwasanaethau maethu awdurdod lleol i reoli'r gwasanaeth. |
| Cynrychiolydd | Unrhyw un sydd â'r awdurdod cyfreithiol, neu gydsyniad y plentyn i weithredu ar ran y plentyn. |
| Unigolyn cyfrifol<br>*(Gweler disgrifiad llawn yn adran 21 o Ddeddf 2016)* | Mewn perthynas â darparwyr gwasanaethau maethu annibynnol yn unig,<br>rhaid i'r unigolyn cyfrifol **fod yn un o'r canlynol:**<br>• os darperir y gwasanaeth maethu gan unigolyn, darparwr y gwasanaeth<br>• os darperir y gwasanaethau maethu gan bartneriaeth, un o'r partneriaid<br>• os darperir y gwasanaethau maethu gan gorff corfforaethol nad yw'n awdurdod lleol |

| | |
|---|---|
| | ○ un o'r cyfarwyddwyr neu swyddog tebyg arall yn y corff<br>○ os darperir y gwasanaeth gan gwmni cyfyngedig cyhoeddus, un o gyfarwyddwyr neu ysgrifennydd y cwmni<br>○ os darperir y gwasanaeth gan gorff corfforaethol y mae ei faterion yn cael eu rheoli gan ei aelodau, un o aelodau'r corff<br>○ os darperir y gwasanaethau maethu gan gorff anghorfforedig, un o aelodau'r corff<br><br>**ac** y mae  Arolygiaeth Gofal Cymru yn fodlon ei fod yn unigolyn addas a phriodol i fod yn unigolyn cyfrifol<br><br>**a'i** fod wedi'i ddynodi gan ddarparwr gwasanaethau maethu ar gyfer man y mae'r darparwr gwasanaethau'n darparu gwasanaethau maethu rheoleiddiedig ynddo, ohono neu mewn perthynas ag ef;<br><br>**a'i** fod wedi'i bennu felly yng nghofrestriad y darparwr gwasanaethau maethu.<br><br>**D.S.** O dan amgylchiadau penodol (gweler Rheoliad 15, sydd heb ei gynnwys yn y canllawiau hyn) caiff  Arolygiaeth Gofal Cymru ddynodi'r unigolyn cyfrifol (ar ran Gweinidogion Cymru) yn hytrach na'r darparwr gwasanaethau maethu. |
| Staff | • Pobl a gyflogir gan y darparwr gwasanaeth i weithio yn y gwasanaeth fel gweithiwr cyflogedig neu weithiwr (yn unol â'r ystyr yn adran 230 o Ddeddf Hawliau Cyflogaeth 1996).<br>• Pobl a gymerir ymlaen gan y darparwr gwasanaethau o dan gontract ar gyfer gwasanaethau.<br>• **Nid yw hyn** yn cynnwys y rhieni maeth neu unrhyw bobl y caniateir iddynt weithio fel gwirfoddolwyr. |
| Y plentyn | Y plentyn sy’n cael gofal a chymorth |
| Anghenion y plentyn | Anghenion gofal a chymorth yr unigolyn |
| Y rhieni maeth | Ystyr rheini maeth yw'r rhiant maeth sydd wedi'i gymeradwyo gan ddarparwr y gwasanaeth a/neu'r darpar riant maeth sy'n gwneud cais i fod yn rhiant maeth wedi'i gymeradwyo. Oedolion yw'r rhain sy'n cael eu cefnogi gan ddarparwr y gwasanaethau maethu er mwyn iddynt ddarparu gofal a chymorth priodol i blentyn sy'n cael ei leoli trwy'r gwasanaeth. |
| Y Rheoliadau | Rheoliadau Gwasanaethau Maethu (Darparwyr Gwasanaethau Maethu ac Unigolion Cyfrifol) (Cymru) 2019 |
| Rheoleiddiwr gwasanaethau | Yn ymarferol, ystyr hyn yw Arolygiaeth Gofal Cymru yn gweithredu ar ran Gweinidogion Cymru wrth gyflawni eu swyddogaethau rheoleiddio. |

| | |
|---|---|
| Datganiad o ddiben | Y datganiad o ddiben ar gyfer y man y darperir y gwasanaeth ohono. |
| Rheoleiddiwr y gweithlu | Gofal Cymdeithasol Cymru |

DRAFFT

## Dolenni defnyddiol

**Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016**
http://www.legislation.gov.uk/anaw/2016/2/contents/enacted

**Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014**
http://www.legislation.gov.uk/anaw/2014/4/contents

**Llywodraeth Cymru: Datganiad Llesiant ar gyfer Pobl sydd angen Gofal a Chymorth a Gofalwyr sydd angen Cymorth**
https://gov.wales/docs/dhss/publications/160831well-being-statementcy.pdf

**Arolygiaeth Gofal Cymru**
http://careinspectorate.wales/?skip=1&lang=cy

**Arolygiaeth Gofal Cymru: Cofrestru**
http://careinspectorate.wales/providingacareservice/?lang=cy

**Gofal Cymdeithasol Cymru**
https://gofalcymdeithasol.cymru/

**Gofal Cymdeithasol Cymru: Hyb Gwybodaeth a Dysgu**
https://gofalcymdeithasol.cymru/hyb/hafan

**Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 - Cod Ymarfer Rhan 10 (Eiriolaeth)**
https://gov.wales/docs/dhss/publications/151218part10cy.pdf

DRAFT

## Pennod 1: Gofynion Cyffredinol ar Ddarparwyr Gwasanaethau Maethu Annibynnol (Rhan 2 o'r Rheoliadau)

**Mae'r bennod hon yn gymwys i ddarparwyr gwasanaethau maethu annibynnol yn unig. Nodir y gofynion cyffredinol ar wasanaethau maethu'r awdurdodau lleol ym mhennod 2 o'r ddogfen hon.**

Mae rhannau 2 a 3 o'r Rheoliadau'n nodi'r ffordd y darperir y gwasanaeth maethu, gan gynnwys:

- gofynion mewn perthynas â'r datganiad o ddiben
- gofynion i sicrhau addasrwydd y gwasanaeth maethu a sefydlogrwydd parhaus y lleoliad
- trefniadau ar gyfer monitro a gwella
- gwneud hysbysiadau i Weinidogion Cymru a chyrff eraill
- hyrwyddo diwylliant o fod yn agored a gonestrwydd ar bob lefel a chydymffurfio â safonau ymddygiad ac arfer a ddisgwylir gan weithwyr gofal cymdeithasol
- dynodi unigolyn cyfrifol
- gofynion mewn perthynas â chynaliadwyedd ariannol y gwasanaeth maethu.

| **Rheoliad 3** | **Canllawiau** |
|---|---|
| **Gofynion mewn perthynas â darparu'r gwasanaeth maethu annibynnol**<br><br>3. Rhaid i'r darparwr gwasanaethau maethu annibynnol sicrhau bod y gwasanaeth wedi ei ddarparu â gofal, cymhwysedd a sgìl digonol, gan roi sylw i'r datganiad o ddiben. | • Mae gan ddarparwyr gwasanaethau maethu drefniadau clir i oruchwylio a llywodraethu'r gwasanaeth maethu er mwyn sefydlu, datblygu a gwreiddio diwylliant sy'n sicrhau'r canlyniadau gorau posibl i blant a rhieni maeth sy'n defnyddio'r gwasanaeth ac sy'n bodloni gofynion y Rheoliadau hyn. Mae hyn yn cynnwys, ond nid yw'n gyfyngedig i'r canlynol:<br>  ○ polisïau a gweithdrefnau i gyflawni nodau'r datganiad o ddiben ac i roi plant a rhieni maeth yng nghanol y gwasanaeth maethu<br>  ○ systemau ar gyfer monitro ac adolygu sy'n cefnogi arferion sy'n seiliedig ar dystiolaeth ac sy'n galluogi plant a rhieni maeth i gyflawni canlyniadau personol y |

| | |
|---|---|
| | plentyn;<br>○ prosesau i sicrhau bod gofal a chymorth yn cael eu darparu mewn ffordd gyson a dibynadwy<br>○ trefniadau staffio diogel, wedi'u hategu gan ddatblygiad proffesiynol, i fodloni anghenion gofal a chymorth plant ac i gefnogi rhieni maeth sy'n defnyddio'r gwasanaeth maethu<br>○ systemau ansawdd ac archwilio i adolygu cynnydd a llywio'r ffordd y datblygir gwasanaethau<br>○ ymagwedd ragweithiol at gyfle cyfartal ac amrywiaeth<br>○ safleoedd addas a hygyrch. |
| **Rheoliad 4** | **Canllawiau** |
| **Gofynion mewn perthynas â'r datganiad o ddiben**<br><br>4—(1) Rhaid i'r darparwr gwasanaethau maethu annibynnol ddarparu'r gwasanaeth yn unol â'r datganiad o ddiben.<br>(2) Rhaid i'r darparwr gwasanaethau maethu annibynnol—<br>(a) cadw'r datganiad o ddiben o dan adolygiad, a<br>(b) pan fo'n briodol, ddiwygio'r datganiad o ddiben.<br>(3) Rhaid i'r darparwr gwasanaethau maethu annibynnol hysbysu'r personau a restrir ym mharagraff (4) am unrhyw ddiwygiad sydd i'w wneud i'r datganiad o ddiben o leiaf 28 o ddiwrnodau cyn y mae i gymryd effaith.<br>(4) Y personau y mae rhaid iddynt gael eu hysbysu am unrhyw ddiwygiad i'r datganiad o ddiben yn unol â pharagraff (3) yw— | • Mae'r datganiad o ddiben yn hanfodol i'r gwasanaeth. Rhaid iddo:<br>○ ddisgrifio'n gywir y gwasanaeth maethu a ddarperir<br>○ dweud ymhle a sut darperir y gwasanaeth hwn<br>○ nodi'r trefniadau i gefnogi sut caiff y gwasanaeth maethu ei ddarparu.<br><br>• Rhaid iddo gynnwys yr wybodaeth sydd yn Rheoliadau Gwasanaethau Maethu (Darparwyr Gwasanaethau Maethu ac Unigolion Cyfrifol) (Cymru) 2019<br><br>• Wrth baratoi datganiad o ddiben, rhaid i'r darparwr ystyried unrhyw ganllawiau ynghylch datganiad o ddiben ar wefan rheoleiddiwr y gwasanaeth. |

DRAFT

| | |
|---|---|
| (a) Gweinidogion Cymru,<br>(b) unrhyw blentyn sydd wedi ei leoli gan y darparwr gwasanaethau maethu annibynnol, oni bai na fyddai’n briodol gwneud hynny o ystyried oedran y plentyn a’i ddealltwriaeth,<br>(c) rhieni unrhyw blentyn o’r fath,<br>(d) rhieni maeth a darpar rieni maeth,<br>(e) personau sy’n gweithio at ddibenion y gwasanaeth maethu annibynnol,<br>(f) yr awdurdod lleoli.<br>(5)Rhaid i’r darparwr gwasanaethau maethu annibynnol ddarparu’r datganiad o ddiben cyfredol i unrhyw berson ar gais, oni bai nad yw’n briodol gwneud hynny neu y byddai gwneud hynny yn anghyson â llesiant plentyn. | • Darperir datganiad o ddiben ar gyfer pob man/lleoliad lle darperir gwasanaeth maethu.<br>• Mae darparwyr gwasanaethau maethu yn adolygu ac yn diweddaru’r datganiad o ddiben bob blwyddyn, o leiaf, neu'n gynt pan fydd newidiadau’n cael eu gwneud i’r gwasanaeth a ddarperir.<br>• Os bwriedir newid y gwasanaeth a ddarperir, bydd y datganiad o ddiben yn cael ei ddiweddaru i adlewyrchu'r newid hwnnw. Bydd y darparwr gwasanaethau maethu yn rhoi gwybod i’r unigolion hynny a nodir yn rheoliad 4(4) 28 diwrnod cyn i'r newidiadau gael eu gwneud. Mae enghreifftiau o hyn yn cynnwys newidiadau i’r trefniadau staffio arferol neu lefelau fel sydd wedi'i nodi yn y datganiad o ddiben sy’n bodoli’n barod.<br>• Os cynigir newid yn y datganiad o ddiben, bydd darparwr gwasanaethau maethu yn bodloni rheoleiddiwr y gwasanaeth ei fod yn gallu cyflawni'r cynigion, er enghraifft, trwy roi rhagor o wybodaeth neu drefnu ymweliad gan y rheoleiddiwr â'r gwasanaeth (lle bo'n briodol).<br>• Os caiff y datganiad o ddiben ei ddiweddaru, cedwir cofnod o'r fersiwn newydd a'r dyddiad diwygio.<br>• Mae copi o'r datganiad o ddiben ar gael yn hwylus i'r rhai a restrir yn rheoliad 4(4). |

DRAFT

| Rheoliad 5 | Canllawiau |
|---|---|
| **Gofyniad i sicrhau addasrwydd y gwasanaeth**<br><br>5—(1) Ni chaiff y darparwr gwasanaethau maethu annibynnol gytuno i leoli plentyn oni bai bod y darparwr wedi penderfynu bod lleoliad addas a all ddiwallu anghenion y plentyn am ofal a chymorth a galluogi'r plentyn i gyflawni ei ganlyniadau personol.<br><br>(2) Rhaid i'r darparwr gwasanaethau maethu annibynnol gael polisi a gweithdrefnau yn eu lle ar leoliadau a chychwyn y gwasanaeth.<br><br>(3) Rhaid i'r penderfyniad o dan baragraff (1) ystyried—<br><br>(a) cynllun gofal a chymorth y plentyn,<br>(b) unrhyw asesiadau iechyd neu unrhyw asesiadau perthnasol eraill,<br>(c) safbwyntiau, dymuniadau a theimladau'r plentyn,<br>(d) unrhyw risgiau i lesiant y plentyn,<br>(e) unrhyw risgiau i lesiant unrhyw blentyn arall y gall y lleoliad sydd i'w wneud effeithio arno,<br>(f) argyhoeddiad crefyddol, tarddiad hiliol, cefndir diwylliannol ac ieithyddol y plentyn, ynghyd â'i gyfeiriadedd rhywiol a'i hunaniaeth o ran rhywedd,<br>(g) unrhyw addasiadau rhesymol y gallai'r darparwr gwasanaethau maethu annibynnol eu gwneud i alluogi i anghenion gofal a chymorth y plentyn gael eu diwallu,<br>(h) polisi a gweithdrefnau'r darparwr gwasanaethau maethu annibynnol ar leoliadau a chychwyn y gwasanaeth. | • Mae gan ddarparwyr gwasanaethau maethu bolisi a gweithdrefnau yn eu lle ar leoliadau a chychwyn y gwasanaeth. Mae hyn yn cynnwys, ond nid yw'n gyfyngedig i'r canlynol:<br>    ○ y trefniadau ar gyfer cadarnhau bod y gwasanaeth yn gallu rhoi cymorth i'r plentyn gyflawni ei ganlyniadau personol neu beidio<br>    ○ y bobl yr ymgynghorir â hwy fel rhan o'r broses<br>    ○ yr wybodaeth i'w hystyried<br>    ○ o dan ba amgylchiadau na fydd gwasanaeth yn cael ei ddarparu<br>    ○ y trefniadau ar gyfer cychwyn y gwasanaeth.<br><br>• Mae crynodeb o'r weithdrefn leoli yn cael ei gynnwys yn y datganiad o ddiben ac yng nghanllaw'r darparwr gwasanaethau maethu i'r gwasanaeth (gweler rheoliad 28).<br><br>• Cyn cytuno i ddarparu gwasanaeth, bydd y darparwr gwasanaethau maethu yn gwneud penderfyniad ar sail gwybodaeth ynglŷn ag a yw'n gallu diwallu anghenion gofal a chymorth plentyn. Wrth benderfynu fel hyn, bydd y darparwr gwasanaethau maethu:<br>    ○ yn ystyried y gofynion sydd wedi'u nodi yn rheoliad 5(3)<br>    ○ yn ymgynghori â'r plentyn, rheini'r plentyn (os yw'n gymwys) a'r awdurdod lleoli i weld beth yw eu safbwyntiau,<br>    ○ yn ystyried cynllun gofal a chymorth y plentyn, ac yn gweithio gyda'r awdurdod sy'n lleoli wrth gynllunio i leoli'r plentyn; |

DRAFT

| | |
|---|---|
| (4) Wrth wneud y penderfyniad ym mharagraff (1), rhaid i’r darparwr gwasanaethau maethu annibynnol gynnwys—<br>(a) y plentyn,<br>(b) rhieni’r plentyn, oni bai bod hyn yn amhriodol neu’n anghyson â llesiant y plentyn,<br>(c) yr awdurdod lleoli. | ○ yn achos plentyn 16 oed neu'n hŷn sy'n derbyn gofal, yn ystyried cynllun llwybr y person ifanc<br>○ yn ystyried unrhyw risgiau i'r plentyn, y rhieni maeth ac aelodau o deulu'r rhiant maeth<br>○ yn cael gwybodaeth am anghenion arbenigol plentyn a'i ofynion er mwyn cadarnhau bod modd diwallu'r rhain.<br><br>• Bydd yr wybodaeth a geir yn ddigonol i alluogi cyfnod pontio hwylus wrth i'r plentyn symud i'r lleoliad maeth.<br><br>• Mae gofal priodol yn cael ei gymryd i sicrhau bod y plentyn yn cael ei roi gyda rhiant maeth addas, ac mae ystyriaeth yn cael ei rhoi i effaith bosibl y lleoliad ar y plentyn, y rheini maeth ac aelodau o deulu'r rhiant maeth.<br><br>• Mae gan bobl sy'n gwneud y penderfyniadau hyn ar ran y darparwr gwasanaethau maethu ddigon o gyfrifoldeb/statws (yn y sefydliad) i wneud penderfyniad ynghylch a all y gwasanaethau maethu ddiwallu anghenion y plentyn.<br><br>• Os lleolir y plentyn mewn argyfwng, dylid gwneud pob ymdrech i sicrhau cymaint o wybodaeth â phosibl (gan gynnwys asesiadau perthnasol) cyn ei leoli i sicrhau bod modd i'r gwasanaeth ddiwallu anghenion y plentyn. |
| **Rheoliad 6** | **Canllawiau** |
| **Addasrwydd parhaus y lleoliad**<br><br>6 - Os nad yw’r lleoliad sydd wedi ei wneud gan y darparwr gwasanaethau maethu annibynnol, o ganlyniad i newid yn | • Mae gan ddarparwyr gwasanaethau maethu systemau a phrosesau i fonitro a yw anghenion asesedig plentyn yn newid ac a all y rhiant maeth barhau i ddiwallu anghenion gofal a chymorth y plentyn. |

DRAFT

| | |
|---|---|
| anghenion asesedig y plentyn, yn addas i ddiwallu anghenion y plentyn am ofal a chymorth mwyach, hyd yn oed ar ôl i unrhyw addasiadau rhesymol gael eu gwneud, rhaid i'r darparwr roi hysbysiad ysgrifenedig o hyn i'r awdurdod lleoli ar unwaith. | • Lle nad yw rhiant maeth bellach yn gallu diwallu anghenion gofal a chymorth plentyn, rhaid i ddarparwr y gwasanaeth hysbysu'r awdurdod lleoli ar unwaith. |
| **Rheoliad 7** | **Canllawiau** |
| **Gofynion mewn perthynas â monitro a gwella**<br>7—(1) Rhaid i'r darparwr gwasanaethau maethu annibynnol sicrhau bod trefniadau effeithiol yn eu lle ar gyfer monitro, adolygu a gwella ansawdd y gwasanaeth.<br>(2) Rhaid i'r trefniadau gynnwys trefniadau ar gyfer ceisio safbwyntiau—<br>(a) unrhyw blentyn sydd wedi ei leoli gan y darparwr gwasanaethau maethu annibynnol,<br>(b) rhieni unrhyw blentyn o'r fath, oni bai bod hyn yn amhriodol neu'n anghyson â llesiant y plentyn,<br>(c) rhieni maeth,<br>(d) personau sy'n gweithio at ddibenion y gwasanaeth maethu annibynnol,<br>(e) yr awdurdod lleoli, ac<br>(f) yn achos plentyn sydd wedi ei leoli gydag awdurdod ardal, yr awdurdod ardal hwnnw ar ansawdd y gwasanaeth a sut y gellir gwella hyn.<br>(3) Wrth wneud unrhyw benderfyniadau ar gynlluniau ar gyfer | • Bydd gan ddarparwyr gwasanaethau maethu systemau a phrosesau ar waith i fonitro, adolygu a gwella ansawdd y gwasanaeth a ddarperir. Bydd hyn yn cynnwys nodi:<br>○ pwy sy'n gyfrifol am sicrhau bod hyn yn cael ei wneud<br>○ sut y bydd hyn yn cael ei wneud<br>○ pa mor aml y mae hyn yn digwydd<br>○ trefniadau er mwyn i'r unigolyn cyfrifol adrodd wrth ddarparwr y gwasanaethau maethu.<br><br>• Bydd canlyniad unrhyw adolygiad yn cael ei ddadansoddi a'i adolygu gan bobl sydd â'r wybodaeth, y sgiliau a'r cymhwysedd priodol i ddeall ei arwyddocâd ac i gymryd camau i sicrhau bod pethau'n gwella. Bydd darparwyr gwasanaethau maethu'n ceisio cyngor proffesiynol/arbenigol yn ôl yr angen ac yn brydlon i helpu i sicrhau gwelliannau.<br><br>• Bydd darparwyr gwasanaethau maethu'n gallu dangos sut maent:<br>○ wedi dadansoddi'r wybodaeth a gasglwyd ac ymateb iddi<br>○ wedi defnyddio'r wybodaeth i wella pethau. |

DRAFT

| | |
|---|---|
| gwella ansawdd y gwasanaeth, rhaid i ddarparwr gwasanaethau maethu annibynnol—<br>(a) ystyried safbwyntiau’r rheini yr ymgynghorir â hwy yn unol â pharagraff (2), a<br>(b) rhoi sylw i’r adroddiad a lunnir gan yr unigolyn cyfrifol yn unol â rheoliad 72(4) (adolygiad o ansawdd). | • Bydd darparwyr gwasanaethau maethu'n monitro'r cynnydd o'i gymharu â chynlluniau i wella ansawdd a diogelwch gwasanaethau ac yn cymryd camau priodol ar unwaith oni lwyddir i sicrhau'r cynnydd disgwyliedig.<br><br>• Bydd y systemau a'r prosesau'n cael eu hadolygu'n barhaus i sicrhau eu bod yn galluogi'r darparwr gwasanaethau maethu i weld ymhle y mae neu y gallai rhywbeth amharu ar ansawdd a/neu ddiogelwch gwasanaethau ac i alluogi ymateb prydlon priodol.<br><br>• Fel rhan o'r broses adolygu ansawdd, bydd darparwyr gwasanaethau maethu:<br>  o yn annog adborth<br>  o yn ceisio barn y bobl berthnasol a restrir yn rheoliad 7(2) yn rheolaidd am ansawdd y gwasanaeth<br>  o yn gallu dangos eu bod wedi gwneud hyn a natur yr adborth y maent wedi'i gael.<br><br>• Bydd y dulliau a ddefnyddir i gysylltu â'r rhai a restrir yn rheoliad 7(2)sy’n defnyddio’r gwasanaeth, ac i gael eu barn, yn briodol i’w hoed, lefel eu dealltwriaeth ac yn ystyried eu cyflwr penodol a/neu unrhyw anghenion cyfathrebu.<br><br>• Defnyddir gwybodaeth a gesglir drwy systemau ansawdd ac archwilio i ddatblygu'r adroddiadau yn yr adolygiad o ansawdd yn unol â rheoliad 75(4). |

DRAFT

| Rheoliad 8 | Canllawiau |
|---|---|
| **Hysbysiadau**<br><br>**8—(**1) Rhaid i'r darparwr gwasanaethau maethu annibynnol hysbysu Gweinidogion Cymru am y digwyddiadau a bennir yn Rhan 1 o Atodlen 1.<br><br>(2) Rhaid i'r darparwr gwasanaethau maethu annibynnol hysbysu'r awdurdod lleoli am y digwyddiadau a bennir yn Rhan 2 o Atodlen 1.<br><br>(3) Rhaid i'r darparwr gwasanaethau maethu annibynnol hysbysu'r awdurdod ardal am y digwyddiadau a bennir yn Rhan 3 o Atodlen 1.<br><br>(4) Rhaid i'r darparwr gwasanaethau maethu annibynnol hysbysu'r bwrdd iechyd lleol y mae'r plentyn wedi ei leoli yn ei ardal am y digwyddiadau a bennir yn Rhan 4 o Atodlen 1.<br><br>(5) Rhaid i'r darparwr gwasanaethau maethu annibynnol hysbysu'r heddlu am y digwyddiadau a bennir yn Rhan 5 o Atodlen 3.<br><br>(6) Rhaid i'r hysbysiadau sy'n ofynnol gan baragraff (1) gynnwys manylion y digwyddiad.<br><br>(7) Oni nodir fel arall, rhaid i hysbysiadau gael eu gwneud yn ddi-oed ac yn ysgrifenedig.<br><br>(8) Rhaid i hysbysiadau gael eu gwneud yn y modd a'r ffurf sy'n ofynnol gan Weinidogion Cymru. | • Bydd gan ddarparwyr gwasanaethau maethu drefniadau priodol ar waith er mwyn i'r awdurdod perthnasol gael hysbysiad am y digwyddiadau a restrir yn Atodlen 1 o'r Rheoliadau.<br><br>• Bydd hysbysiadau'n cael eu gwneud yn ddi-oed, o fewn 24 awr i'r digwyddiad fel arfer.<br><br>• Bydd y canlynol yn berthnasol mewn perthynas ag Atodlen 1 (Rhan 1, 11)(Rhan 2, 11)(Rhan 3, 3)(Rhan 5, 3). Bydd darparwyr gwasanaethau maethu'n hysbysu'r awdurdodau perthnasol am unrhyw ddigwyddiad o gamfanteisio'n rhywiol ar blant neu amheuaeth o gamfanteisio'n rhywiol ar blant. Mae hyn yn cynnwys, ond nid yw'n gyfyngedig i'r canlynol:<br>  ○ pan fydd plentyn yn rhoi gwybod am ddigwyddiad sy'n awgrymu y gall fod rhywun yn camfanteisio'n rhywiol arno;<br>  ○ pan fydd rheswm dros gredu y gall rhywun fod yn camfanteisio'n rhywiol ar blentyn. |

DRAFT

| Rheoliad 9 | Canllawiau |
|---|---|
| **Dyletswydd gonestrwydd**<br><br>9. Rhaid i’r darparwr gwasanaethau maethu annibynnol weithredu mewn ffordd agored a thryloyw gydag—<br>(a) unrhyw blentyn sydd wedi ei leoli gan y darparwr gwasanaethau maethu annibynnol,<br>(b) rhieni unrhyw blentyn o’r fath,<br>(c) rhieni maeth a darpar rieni maeth,<br>(d) yr awdurdod lleoli,<br>(e) yn achos plentyn sydd wedi ei leoli gydag awdurdod ardal, yr awdurdod ardal hwnnw. | • Bydd gan ddarparwyr gwasanaethau maethu bolisïau a gweithdrefnau ar waith a fydd yn gefn i ddiwylliant o fod yn agored ac yn dryloyw, ac a fydd yn sicrhau bod y staff i gyd yn ymwybodol ohonynt ac yn eu dilyn. Mae’r rhain yn dilyn ac yn ystyried canllawiau Gofal Cymdeithasol Cymru ar y ddyletswydd gonestrwydd broffesiynol ar gyfer gweithwyr proffesiynol ym maes gofal cymdeithasol sydd wedi’u cofrestru â Gofal Cymdeithasol Cymru.<br><br>• Bydd darparwyr gwasanaethau maethu'n hybu diwylliant sy'n annog pawb i fod yn onest sy’n cynnwys:<br>○ bod yn agored, yn onest ac ymgysylltu â'r rhai a restrir yn rheoliad 9 (a)–(e)<br>○ darparu gwybodaeth am unrhyw ddigwyddiadau perthnasol a chanlyniad unrhyw ymchwiliadau sydd wedi cael eu cynnal<br>○ cynnig ymddiheuriad am yr hyn sydd wedi digwydd, lle y bydd gwneud hynny yn briodol.<br><br>• Mae darparwyr gwasanaethau maethu yn cymryd camau i atal bwlio, erlyn a/neu aflonyddu ac yn mynd i'r afael â'r rhain yn briodol, gyda golwg ar y ddyletswydd i fod yn onest, ac i ymchwilio i unrhyw ddigwyddiad lle mae’n bosibl bod aelod o'r bwrdd, unigolyn cyfrifol neu aelod o'r staff neu unrhyw berson arall wedi rhwystro rhywun arall rhag cyflawni ei ddyletswydd yntau i fod yn onest.<br><br>• Mae gan ddarparwyr gwasanaethau maethu system ar waith i sylwi ar achos posibl o dorri'r ddyletswydd broffesiynol i fod yn onest gan staff sydd wedi'u cofrestru'n broffesiynol (fel y |

DRAFT

| | |
|---|---|
| | bo'n briodol) , ac i ymdrin â hynny gan gynnwys rhwystro rhywun arall rhag cyflawni ei ddyletswydd broffesiynol i fod yn onest. Bydd camau i fynd i'r afael â thorri amodau o'r fath yn cynnwys, lle y bo hynny'n briodol, gyfeirio rhywun at y rheoleiddiwr proffesiynol neu at gorff perthnasol arall. |
| **Rheoliad 10** | **Canllawiau** |
| **Cydymffurfio â chod ymarfer**<br><br>10. Rhaid i'r darparwr gwasanaethau maethu annibynnol lynu wrth y cod ymarfer ar y safonau ymddygiad ac ymarfer a ddisgwylir oddi wrth bersonau sy'n cyflogi neu sy'n ceisio cyflogi gweithwyr gofal cymdeithasol, y mae'n ofynnol i Ofal Cymdeithasol Cymru ei gyhoeddi o dan adran 112(1)(b) o Ddeddf 2016. | • Mae gan ddarparwyr gwasanaethau maethu gyfrifoldebau mewn perthynas â'r Cod Ymarfer a gyhoeddir gan Ofal Cymdeithasol Cymru o bryd i'w gilydd, a elwir ar hyn o bryd Cod Ymarfer i Gyflogwyr Staff Gofal Cymdeithasol (cyhoeddiad Gofal Cymdeithasol Cymru). |
| **Rheoliad 11** | **Canllawiau** |
| **Gofynion mewn perthynas â'r unigolyn cyfrifol**<br><br>11—(1) Nid yw'r rheoliad hwn yn gymwys i ddarparwr | • Bydd gan ddarparwyr gwasanaethau maethu drefniadau ar waith i gynnal trafodaethau ffurfiol a rheolaidd gyda'r unigolyn cyfrifol, ac i roi cymorth iddo. |

DRAFT

| | |
|---|---|
| gwasanaethau maethu annibynnol sy’n unigolyn.<br>(2) Rhaid i ddarparwr gwasanaethau maethu annibynnol y mae’r rheoliad hwn yn gymwys iddo sicrhau bod y person sydd wedi ei ddynodi fel yr unigolyn cyfrifol(**1**)—<br>(a) yn cael cymorth i gyflawni ei ddyletswyddau’n effeithiol, a<br>(b) yn ymgymryd â hyfforddiant priodol.<br>(3) Rhaid i’r darparwr gwasanaethau maethu annibynnol sicrhau bod yr unigolyn cyfrifol yn cydymffurfio â’r gofynion a osodir gan Ran 12 (dyletswyddau unigolion cyfrifol) o’r Rheoliadau hyn.<br>(4) Os bydd gan y darparwr gwasanaethau maethu annibynnol reswm dros gredu nad yw’r unigolyn cyfrifol wedi cydymffurfio â gofyniad a osodir gan y rheoliadau yn Rhan 5, rhaid i’r darparwr—<br>(a) cymryd unrhyw gamau gweithredu sy’n angenrheidiol i sicrhau y cydymffurfir â’r gofyniad, a<br>(b) hysbysu Gweinidogion Cymru.<br>(5) Yn ystod unrhyw adeg pan nad yw’r unigolyn cyfrifol yn gallu cyflawni ei ddyletswyddau, rhaid i’r darparwr gwasanaethau maethu annibynnol sicrhau bod trefniadau yn eu lle ar gyfer—<br>(a) rheoli’r gwasanaeth yn effeithiol,<br>(b) goruchwylio’r gwasanaeth yn effeithiol, ac<br>(c) cydymffurfedd y gwasanaeth â gofynion y Rheoliadau hyn.<br>(6) Os nad yw’r unigolyn cyfrifol yn gallu cyflawni ei ddyletswyddau a hynny am gyfnod o fwy nag 28 o ddiwrnodau, rhaid i’r darparwr gwasanaethau maethu annibynnol— | • Bydd darparwyr gwasanaethau maethu'n rhoi cymorth i'r unigolyn cyfrifol ddilyn hyfforddiant sy'n ei alluogi i gyflawni ei rôl yn effeithiol a chyflawni nodau'r gwasanaethau maethu fel y maent yn y datganiad o ddiben ac yn unol â'r canllawiau ymarfer a argymhellir gan Gofal Cymdeithasol Cymru. Mae hyfforddiant ar gyfer unigolion cyfrifol yn cynnwys y canlynol:<br>  • fframwaith deddfwriaethol a gofynion statudol<br>  • dyletswyddau penodol unigolyn cyfrifol<br>  • perfformiad gwasanaeth a rheoli ansawdd<br>  • llywio diwylliant gwasanaeth.<br><br>• Os bydd unigolyn cyfrifol wedi methu â chyflawni ei rôl bydd y darparwr gwasanaethau maethu'n hysbysu rheoleiddiwr y gwasanaethau maethu am unrhyw gamau a gymerwyd a, lle y bo hynny'n berthnasol, yn ei gynghori ynghylch y trefniadau ar gyfer dynodi rhywun yn ei le.<br><br>• Os na fydd unigolyn cyfrifol neu os nad yw’r unigolyn cyfrifol yn gallu cyflawni ei ddyletswyddau am ba bynnag reswm, er enghraifft am ei fod yn absennol o’i rôl oherwydd salwch, bydd y darparwr gwasanaethau maethu yn sicrhau bod y cyfrifoldeb dros orchwylio'r gwaith o reoli’r gwasanaeth, fel y nodir yn rhannau 12 o'r Rheoliadau, yn cael ei fodloni. |

DRAFT

(**1**) Mae adran 6 o Ddeddf 2016 yn ei gwneud yn ofynnol i berson sy’n dymuno darparu gwasanaeth rheoleiddiedig wneud cais ar gyfer cofrestru i Weinidogion Cymru sy’n dynodi unigolyn fel yr unigolyn cyfrifol.

| | |
|---|---|
| (a) hysbysu Gweinidogion Cymru, a<br>(b) rhoi manylion llawn i Weinidogion Cymru am y trefniadau interim. | |
| **Rheoliad 12** | **Canllawiau** |
| **Gofynion mewn perthynas â'r unigolyn cyfrifol pan fo'r darparwr yn unigolyn**<br>12—(1) Mae'r rheoliad hwn yn gymwys pan fo darparwr gwasanaeth maethu annibynnol yn unigolyn.<br>(2) Os yw'r rheoliad hwn yn gymwys, rhaid i'r unigolyn ymgymryd â hyfforddiant priodol er mwyn cyflawni ei ddyletswyddau'n briodol fel yr unigolyn cyfrifol.<br>(3) Yn ystod unrhyw adeg pan yw'r unigolyn yn absennol, rhaid iddo sicrhau bod trefniadau yn eu lle ar gyfer—<br>(a) rheoli'r gwasanaeth yn effeithiol,<br>(b) goruchwylio'r gwasanaeth yn effeithiol,<br>(c) cydymffurfedd y gwasanaeth â gofynion y Rheoliadau hyn.<br>(4) Os nad yw'r unigolyn yn gallu cyflawni ei ddyletswyddau fel unigolyn cyfrifol a hynny am gyfnod o fwy nag 28 o ddiwrnodau, rhaid iddo—<br>(a) hysbysu Gweinidogion Cymru, a<br>(b )rhoi manylion llawn i Weinidogion Cymru am y trefniadau interim. | • Bydd yr unigolyn cyfrifol yn dilyn hyfforddiant a fydd yn ei alluogi i gyflawni ei rôl yn effeithiol a chyflawni nodau'r gwasanaeth fel y maent yn y datganiad o ddiben ac yn unol â'r canllawiau ymarfer a argymhellir gan Gofal Cymdeithasol Cymru. Mae'r hyfforddiant yn cynnwys:<br>  • fframwaith deddfwriaethol a gofynion<br>  • dyletswyddau penodol unigolyn cyfrifol<br>  • perfformiad gwasanaeth a rheoli ansawdd;<br>  • llywio diwylliant gwasanaeth.<br>• Os na fydd yr unigolyn cyfrifol yn gallu cyflawni ei ddyletswyddau am ba reswm bynnag, er enghraifft am ei fod yn absennol o'i rôl oherwydd salwch, bydd yr unigolyn cyfrifol yn sicrhau bod trefniadau ar waith er mwyn bodloni'r gofynion yn rheoliad 12(3). |

DRAFT

| Rheoliad 13 | Canllawiau |
|---|---|
| **Gofynion mewn perthynas â chynaliadwyedd ariannol y gwasanaeth maethu annibynnol**<br><br>13—(1) Rhaid i'r darparwr gwasanaethau maethu annibynnol gymryd camau rhesymol i sicrhau bod y gwasanaeth yn gynaliadwy yn ariannol at ddiben cyflawni'r nodau a'r amcanion a nodir yn y datganiad o ddiben.<br><br>(2)Rhaid i'r darparwr gwasanaethau maethu annibynnol gynnal cyfrifon priodol a chyfredol ar gyfer y gwasanaeth.<br><br>(3)Rhaid i'r darparwr gwasanaethau maethu annibynnol ddarparu copïau o'r cyfrifon i Weinidogion Cymru o fewn 28 o ddiwrnodau i gael cais i wneud hynny.<br><br>(4)Caiff Gweinidogion Cymru ei gwneud yn ofynnol i'r cyfrifon gael eu hardystio gan gyfrifydd. | • Bydd systemau ar waith i sicrhau bod gwaith cynllunio ariannol, monitro'r gyllideb a rheolaeth ariannol yn cael ei wneud yn effeithiol.<br><br>• Bydd systemau ar waith i sicrhau sefydlogrwydd ariannol yn unol ag unrhyw ganllawiau cenedlaethol a rheoliadau ariannol.<br><br>• Bydd gan ddarparwyr gwasanaethau yr adnoddau ariannol sydd eu hangen i ddarparu ac i barhau i ddarparu'r gwasanaethau a ddisgrifir yn y datganiad o ddiben ac er mwyn bodloni gofynion y Rheoliadau.<br><br>• Bydd gan ddarparwyr gwasanaethau maethu yswiriant priodol a threfniadau digolledu priodol i warchod rhag rhwymedigaethau posibl yn sgil marwolaeth, anaf, neu achosion eraill, colled neu ddifrod i eiddo, a risgiau ariannol eraill.<br><br>• Os na fydd cyfrifon archwiliedig ar gael, bydd cyfrifon blynyddol yn cael eu cwblhau gan gyfrifydd cymwys at ddibenion rheoleiddio ac archwilio.<br><br>• Mae'r cyfrifon yn dangos bod y gwasanaeth yn ariannol hyfyw ac yn debygol o fod â digon o arian i barhau i gyflawni ei ddatganiad o ddiben.<br><br>• Mae'r darparwr gwasanaethau maethu yn sicrhau bod taliadau prydlon yn cael eu gwneud i rieni maeth ar gyfer unrhyw lwfansau neu dreuliau y cytunir arnynt, sy'n |

DRAFT

| | |
|---|---|
| | cwmpasu costau darparu gofal a chymorth i blentyn.<br><br>• Mae'r darparwr gwasanaethau maethu yn sicrhau bod rhieni maeth yn deall y cymorth ariannol neu'r cymorth arall sydd ar gael iddynt. |

DRAFFT

## Pennod 2: Gofynion Cyffredinol ar Wasanaethau Maethu Annibynnol (Rhan 5 o'r Rheoliadau)

**Mae'r bennod hon yn gymwys i wasanaethau maethu awdurdodau lleol yn unig. Nodir y gofynion cyffredinol ar ddarparwyr gwasanaethau maethu annibynnol ym mhennod 1 i'r ddogfen hon.**

Mae Rhan 5 o'r Rheoliadau'n nodi'r ffordd y mae'n rhaid i awdurdodau lleol ddarparu eu gwasanaethau maethu, gan gynnwys:
- gofynion mewn perthynas â'r datganiad o ddiben
- trefniadau ar gyfer monitro a gwella
- penodi rheolwr gwasanaethau maethu.

DRAFT

| Rheoliad 18 | Cod ymarfer |
| --- | --- |
| **Gofynion mewn perthynas â darparu gwasanaeth maethu'r awdurdod lleol**<br><br>18. Rhaid i ddarparwr gwasanaethau maethu'r awdurdod lleol sicrhau bod y gwasanaeth wedi ei ddarparu â gofal, cymhwysedd a sgìl digonol, gan roi sylw i'r datganiad o ddiben. | • Mae gan awdurdodau lleol drefniadau clir i oruchwylio a llywodraethu eu gwasanaethau maethu er mwyn sefydlu, datblygu a gwreiddio diwylliant sy'n sicrhau'r canlyniadau gorau posibl i blant a rhieni maeth sy'n defnyddio gwasanaeth maethu'r awdurdodau lleol ac i fodloni gofynion y Rheoliadau.<br><br>• Mae hyn yn cynnwys, ond nid yw'n gyfyngedig i'r canlynol:<br>o polisïau a gweithdrefnau i gyflawni nodau'r datganiad o ddiben ac i roi plant a rhieni maeth yng nghanol y gwasanaeth maethu<br>o systemau ar gyfer monitro ac adolygu sy'n cefnogi ymarfer yn seiliedig ar dystiolaeth ac yn helpu plant a rhieni maeth i gyflawni eu canlyniadau personol<br>o prosesau i sicrhau bod gofal a chymorth yn cael eu darparu mewn ffordd gyson a dibynadwy<br>o trefniadau staffio diogel, wedi'u hategu gan ddatblygiad proffesiynol, i fodloni anghenion gofal a chymorth plant ac i gefnogi rhieni maeth sy'n defnyddio'r gwasanaeth maethu<br>o systemau ansawdd ac archwilio i adolygu cynnydd a llywio'r ffordd y datblygir y gwasanaeth maethu<br>o ymagwedd ragweithiol at gyfle cyfartal ac amrywiaeth<br>o safleodd addas a hygyrch. |

DRAFT

| Rheoliad 19 | Cod ymarfer |
|---|---|
| **Cynnwys y datganiad o ddiben**<br><br>19. Rhaid i ddarparwr gwasanaethau maethu'r awdurdod lleol lunio datganiad o ddiben sy'n cynnwys yr wybodaeth a restrir yn Atodlen 2. | • Mae'r datganiad o ddiben yn hanfodol i'r gwasanaeth maethu. Rhaid iddo:<br>○ ddisgrifio'n gywir y gwasanaethau a ddarperir<br>○ dweud ymhle a sut y darperir y gwasanaethau hyn<br>○ nodi'r trefniadau i gefnogi sut y caiff y gwasanaethau eu darparu.<br><br>• Rhaid iddo gynnwys yr wybodaeth sydd yn atodlen 2 o'r Rheoliadau.<br><br>• Wrth baratoi datganiad o ddiben, rhaid i'r awdurdod lleol ystyried unrhyw ganllawiau ynghylch unrhyw ddatganiad o ddiben a ddarperir gan Lywodraeth Cymru. |
| **Rheoliad 20** | |
| **Gofynion mewn perthynas â'r datganiad o ddiben**<br><br>20—(1) Rhaid i ddarparwr gwasanaeth maethu'r awdurdod lleol ddarparu'r gwasanaeth yn unol â'r datganiad o ddiben.<br>(2) Rhaid i ddarparwr gwasanaethau maethu'r awdurdod lleol—<br>(a) cadw'r datganiad o ddiben o dan adolygiad, a<br>(b) pan fo'n briodol, ddiwygio'r datganiad o ddiben.<br>(3) Rhaid i ddarparwr gwasanaethau maethu'r awdurdod lleol hysbysu'r personau a restrir ym mharagraff (4) am unrhyw ddiwygiad sydd i'w wneud i'r datganiad o ddiben o leiaf 28 o | • Mae darparwyr gwasanaethau maethu yn adolygu ac yn diweddaru'r datganiad o ddiben bob blwyddyn, o leiaf, neu pan fydd newidiadau'n cael eu gwneud i'r gwasanaethau a ddarperir.<br><br>• Os bwriedir newid y gwasanaethau a ddarperir, bydd y datganiad o ddiben yn cael ei ddiweddaru i adlewyrchu'r newid hwnnw. Bydd yr awdurdod lleol yn rhoi gwybod i'r unigolion hynny a nodir yn rheoliad 20(4) 28 diwrnod cyn i'r newidiadau gael eu gwneud. Mae enghreifftiau o hyn yn cynnwys newidiadau i'r trefniadau staffio arferol neu lefelau fel sydd wedi'i nodi yn y datganiad o ddiben sy'n bodoli'n barod. |

DRAFT

| | |
|---|---|
| ddiwrnodau cyn y mae i gymryd effaith.<br>(4) Y personau y mae rhaid iddynt gael eu hysbysu am unrhyw ddiwygiad i’r datganiad o ddiben yn unol â pharagraff (3) yw—<br>(a) Gweinidogion Cymru,<br>(b) unrhyw blentyn sydd wedi ei leoli gan ddarparwr gwasanaethau maethu’r awdurdod lleol, oni bai na fyddai’n briodol gwneud hynny o ystyried oedran y plentyn a’i ddealltwriaeth,<br>(c) rhieni unrhyw blentyn o’r fath,<br>(d) rhieni maeth neu ddarpar rieni maeth,<br>(e) personau sy’n gweithio at ddibenion gwasanaeth maethu’r awdurdod lleol.<br>(5) Rhaid i ddarparwr gwasanaethau maethu’r awdurdod lleol ddarparu’r datganiad o ddiben cyfredol i unrhyw berson ar gais, oni bai nad yw’n briodol gwneud hynny neu y byddai gwneud hynny yn anghyson â llesiant plentyn. | • Lle cynigir newid i'r datganiad o ddiben, mae'r awdurdod lleol yn rhoi i Arolygiaeth Gofal Cymru unrhyw wybodaeth ychwanegol y gallai fod arni ei hangen i'w bodloni ei hun ei bod yn gallu darparu'r gwasanaethau a gynigir.<br>• Os caiff y datganiad o ddiben ei ddiweddaru, cedwir cofnod o'r fersiwn a'r dyddiad diwygio.<br>• Mae copi o'r datganiad o ddiben ar gael yn hwylus i'r rhai a restrir yn rheoliad 20(4). |
| **Rheoliad 21** | **Cod ymarfer** |
| **Gofynion mewn perthynas â monitro a gwella**<br>21—(1) Rhaid i darparwr gwasanaethau maethu’r awdurdod lleol sicrhau bod trefniadau effeithiol yn eu lle ar gyfer monitro, adolygu a gwella ansawdd y gwasanaeth.<br>(2) Rhaid i’r trefniadau hynny gynnwys trefniadau ar gyfer ceisio safbwyntiau—<br>(a) unrhyw blentyn sydd wedi ei leoli gan ddarparwr gwasanaethau maethu’r awdurdod lleol, | • Bydd gan yr awdurdodau lleol systemau a phrosesau ar waith i fonitro, adolygu a gwella ansawdd eu gwasanaeth maethu. Bydd hyn yn cynnwys nodi:<br>○ pwy sy'n gyfrifol am sicrhau bod hyn yn cael ei wneud<br>○ sut y bydd hyn yn cael ei wneud<br>○ pa mor aml y mae hyn yn digwydd<br>○ sut y caiff y canlyniadau eu bwydo'n ôl i brif swyddogion ac aelodau etholedig yr awdurdodau lleol a'u hystyried ganddynt. |

DRAFT

| | |
|---|---|
| (b) rhieni unrhyw blentyn o'r fath, oni bai bod hyn yn amhriodol neu'n anghyson â llesiant y plentyn,<br>(c) rhieni maeth, a<br>(d) personau sy'n gweithio at ddibenion gwasanaeth maethu'r awdurdod lleol<br>ar ansawdd y gwasanaeth.<br>(3) Wrth wneud unrhyw benderfyniadau ar gynlluniau ar gyfer gwella ansawdd y gwasanaeth, rhaid i ddarparwr gwasanaethau maethu'r awdurdod lleol ystyried safbwyntiau'r personau hynny yr ymgynghorir â hwy yn unol â pharagraff (2). | • Mae canlyniad unrhyw adolygiad yn cael ei ddadansoddi a'i adolygu gan bobl sydd â'r wybodaeth, y sgiliau a'r cymhwysedd priodol i ddeall ei arwyddocâd ac i gymryd camau i sicrhau bod pethau'n gwella. Mae darparwyr gwasanaethau maethu'n ceisio cyngor proffesiynol/arbenigol yn ôl yr angen ac yn brydlon i helpu i sicrhau gwelliannau.<br><br>• Mae darparwyr gwasanaethau maethu'n gallu dangos sut maent:<br>○ wedi dadansoddi'r wybodaeth a gasglwyd ac ymateb iddi<br>○ wedi defnyddio'r wybodaeth i wella pethau.<br><br>• Mae darparwyr gwasanaethau maethu'n monitro'r cynnydd o'i gymharu â chynlluniau i wella ansawdd a diogelwch gwasanaethau ac yn cymryd camau priodol ar unwaith oni lwyddir i sicrhau'r cynnydd disgwyliedig.<br><br>• Mae'r systemau a'r prosesau'n cael eu hadolygu'n barhaus i sicrhau eu bod yn galluogi'r darparwr gwasanaethau maethu i weld ymhle y mae neu y gallai rhywbeth amharu ar ansawdd a/neu ddiogelwch gwasanaethau ac i alluogi ymateb prydlon priodol.<br><br>• Fel rhan o'r broses adolygu ansawdd, mae darparwyr gwasanaethau maethu:<br>○ yn annog adborth<br>○ yn ceisio barn y bobl berthnasol yn rheolaidd am ansawdd y gwasanaeth maethu<br>○ yn gallu dangos eu bod wedi gwneud hyn a natur yr adborth y maent wedi'i gael.<br><br>• Mae'r dulliau a ddefnyddir i gysylltu ag unigolion sy'n |

DRAFT

| | |
|---|---|
| | defnyddio'r gwasanaeth maethu, ac i gael eu barn, yn briodol i'w hoed, lefel eu dealltwriaeth ac yn ystyried eu cyflwr penodol a/neu unrhyw anghenion o ran cyfathrebu. |

DRAFFT

| Rheoliad 22 | Cod ymarfer |
|---|---|
| **Gofynion mewn perthynas â rheolwr yr awdurdod lleol**<br><br>22—(1) Rhaid i bob darparwr gwasanaethau maethu awdurdod lleol benodi un o'i swyddogion i fod yn gyfrifol am reoli'r gwasanaeth.<br><br>(2) Rhaid i ddarparwr gwasanaethau maethu'r awdurdod lleol roi hysbysiad ysgrifenedig ar unwaith i Weinidogion Cymru—<br>(a) o enw'r person a benodir yn rheolwr,<br>(b) o'r dyddiad y mae'r penodiad i gymryd effaith,<br>(c) os bydd y person sydd wedi ei benodi'n rheolwr yn peidio â rheoli gwasanaeth maethu'r awdurdod lleol. | • Mae darparwyr gwasanaethau maethu yn rhoi hysbysiad ysgrifenedig i Arolygiaeth Gofal Cymru yn ddi-oed fel sy'n ofynnol o dan y Rheoliad. |
| **Rheoliad 23** | **Cod ymarfer** |
| **Gofynion o ran addasrwydd ar gyfer penodi rheolwr**<br><br>23—(1) Ni chaiff darparwr gwasanaethau maethu'r awdurdod lleol benodi person i reoli'r gwasanaeth oni bai bod y person hwnnw yn addas i wneud hynny.<br><br>(2) At ddibenion paragraff (1), nid yw person yn addas i reoli'r gwasanaeth oni bai bod gofynion rheoliad 54(2) (addasrwydd staff) wedi eu bodloni mewn cysylltiad â'r person hwnnw. | • Bydd gan yr awdurdodau lleol drefniadau addas yn eu lle i sicrhau bod y rheolwr yn addas ac yn alluog i redeg y gwasanaeth yn unol â'i ddatganiad o ddiben. Bydd hyn yn cynnwys sicrhau:<br>○ bod gan y rheolwr y cymwysterau priodol<br>○ bod y rheolwr wedi'i gofrestru â Gofal Cymdeithasol Cymru<br>○ bod y rheolwr yn brofiadol o wrth ddarparu gwasanaeth maethu<br>○ bod y broses o archwilio cefndir darpar reolwyr yn cynnwys yr archwiliadau perthnasol sy'n ofynnol gan y deddfwriaeth i dawelu meddwl yr unigolyn cyfrifol bod yr unigolyn yn addas ac yn alluog i weithio gyda phlant. |

DRAFT

| Rheoliad 24 | Cod ymarfer |
|---|---|
| **Gofynion mewn perthynas â'r rheolwr**<br><br>24—(1) Rhaid i ddarparwr gwasanaethau maethu awdurdod lleol sicrhau bod y person sydd wedi ei benodi'n rheolwr—<br>(a) yn cael cymorth i gyflawni ei ddyletswyddau'n effeithiol, a<br>(b) yn ymgymryd â hyfforddiant priodol.<br>(2) Rhaid i ddarparwr gwasanaethau maethu'r awdurdod lleol sicrhau bod y rheolwr yn cydymffurfio â gofynion Rhan 13 (dyletswyddau i'w cyflawni gan reolwr gwasanaethau maethu'r awdurdod lleol) o'r Rheoliadau hyn.<br>(3) Os bydd gan ddarparwr gwasanaethau maethu'r awdurdod lleol reswm dros gredu nad yw'r rheolwr wedi cydymffurfio â gofyniad a osodir gan y rheoliadau yn Rhan 13, rhaid i'r darparwr gymryd unrhyw gamau gweithredu sy'n angenrheidiol i sicrhau y cydymffurfir â'r gofyniad.<br>(4) Rhaid i ddarparwr gwasanaethau maethu'r awdurdod lleol roi trefniadau addas yn eu lle i sicrhau bod y gwasanaeth yn cael ei reoli'n effeithiol ar unrhyw adeg pan nad oes rheolwr sydd wedi ei benodi neu pan yw'r rheolwr yn absennol o'r gwasanaeth. | • Bydd gan ddarparwyr gwasanaethau maethu drefniadau ar waith i gynnal trafodaethau ffurfiol a rheolaidd â'r rheolwr, ac i roi cymorth iddo.<br><br>• Bydd darparwyr gwasanaethau maethu yn rhoi cymorth i'r rheolwr ddilyn hyfforddiant sy'n ei alluogi i gyflawni ei rôl yn effeithiol a chyflawni nodau gwasanaeth maethu'r awdurdod lleol fel y maent yn y datganiad o ddiben ac yn unol â'r canllawiau ymarfer a argymhellir gan Gofal Cymdeithasol Cymru.<br><br>• Os na fydd rheolwr yn ei le, neu os nad yw'r rheolwr yn gallu cyflawni ei ddyletswyddau am ba reswm bynnag (er enghraifft am ei fod yn absennol o'i rôl oherwydd salwch), bydd yr awdurdodau lleol ynn sicrhau bod trefniadau ar waith er mwyn rheoli gwasanaethau maethu'r awdurdodau lleol yn ystod y swydd wag. |

DRAFT

## Pennod 3: Gofynion ar ddarparwyr gwasanaethau maethu annibynnol a darparwyr gwasanaethau maethu'r awdurdodau lleol

**Mae'r bennod hon yn gymwys i ddarparwyr gwasanaethau maethu annibynnol a darparwyr gwasanaethau maethu'r awdurdodau lleol.**

Mae rhannau 6 i 11 o'r Rheoliadau'n nodi'r ffordd y mae darparwyr gwasanaethau maethu yn darparu eu gwasanaethau maethu mewn perthynas â'r canlynol:

- Gofynion cyffredinol yn ymwneud â diogelu, darparu gwybodaeth, bodloni anghenion iaith a chyfathrebu'r plentyn a thrin plant gyda pharch a sensitifrwydd. Mae hyn hefyd yn nodi'r gofyniad i gadw cofnodion.
- Polisïau, gweithdrefnau a safonau eraill y mae rhaid i ddarparwr gwasanaethau maethu eu rhoi ar waith. Mae hyn hefyd yn cynnwys gofynion penodol mewn perthynas â sicrhau bod plant yn ddiogel ac yn cael eu hamddiffyn rhag camdriniaeth, esgeulustod a thriniaeth amhriodol, gan gynnwys y camau i'w cymryd o ganlyniad i honiad neu dystiolaeth o gamdriniaeth.
- Sicrhau bod plant yn cael gafael ar wasanaethau iechyd, addysg a gwasanaethau eraill.
- Cefnogaeth a chymorth arall i'w rhoi ar gyfer rhieni maeth.
- Staffio, gan gynnwys niferoedd digonol o staff ac addasrwydd unigolion sy'n gweithio yn y gwasanaeth maethu. Mae hyn hefyd yn cynnwys gofynion sy’n ymwneud â chefnogi a datblygu staff, darparu gwybodaeth i staff a gweithredu gweithdrefn ddisgyblu addas.

DRAFT

## Gofynion Cyffredinol

| Rheoliad 25 | Canllawiau / Cod Ymarfer |
|---|---|
| **Cydymffurfedd â'r cytundeb gofal maeth**<br><br>25- Rhaid i'r darparwr gwasanaethau maethu fonitro cydymffurfedd y rhieni maeth â gofynion y cytundeb gofal maeth, fel y'i nodir yn Atodlen 8. | • Mae gan ddarparwyr gwasanaethau maethu drefniadau effeithiol yn eu lle i fonitro ac adolygu'r rhwymedigaethau a osodir ar rieni maeth fel y nodir yn y cytundeb gofal maeth.<br><br>• Mae gan ddarparwyr gwasanaethau maethu drefniadau effeithiol yn eu lle i sicrhau bod rhieni maeth yn cymryd camau i gydymffurfio â'r cytundeb gofal maeth lle y nodir nad ydynt yn gwneud hynny ar hyn o bryd. |
| **Rheoliad 26** | **Canllawiau / Cod Ymarfer** |
| **Diogelu**<br><br>26. Rhaid i'r darparwr gwasanaethau maethu roi trefniadau yn eu lle i sicrhau bod plant sydd wedi eu lleoli ganddo yn ddiogel ac yn cael eu hamddiffyn rhag camdriniaeth, esgeulustod a thriniaeth amhriodol. | • Pan fydd lleoliad yn dechrau, rhoddir gwybodaeth i'r plentyn am ddiogelu, sut mae lleisio pryder, gan ddweud wrthynt fod cymorth ar gael i'w galluogi i wneud hynny.<br><br>• Gall staff a rhieni maeth gael gafael ar bolisi a gweithdrefnau diogelu sydd wedi'u diweddaru.<br><br>• Mae staff a rhieni maeth yn cael hyfforddiant perthnasol i'w rôl i ddeall diogelu ac amddiffyn unigolion agored i niwed.<br><br>• Bydd y staff yn cael eu hyfforddi'n gyson yn unol â'r argymhellion diogelu lleol.<br><br>• Bydd y staff yn ymwybodol o'u cyfrifoldebau unigol am leisio pryder er mwyn sicrhau diogelwch a llesiant plant. |

DRAFT

| | |
|---|---|
| | • Bydd darparwyr gwasanaethau maethu'n rhoi cymorth i staff sydd am leisio pryder ynghylch diogelu (chwythu’r chwiban).<br><br>• Bydd darparwyr gwasanaethau maethu yn gweithio mewn partneriaeth ag asiantaethau a gweithwyr proffesiynol perthnasol eraill ac yn cymryd rhan yn y broses ddiogelu.<br><br>• Bydd cofnodion ynghylch atgyfeiriadau a chanlyniadau diogelu'n cael eu cadw er mwyn gallu goruchwylio diogelu o fewn y gwasanaeth maethu a chraffu arno. Rhaid i'r rheolwr a'r unigolyn cyfrifol / rheolwr gwasanaethau maethu'r awdurdodau lleol oruchwylio'r gwaith o ddiogelu unigolion agored i niwed, a rhaid i hynny ddigwydd o fewn y strwythur llywodraethu gan sefydlu trefniadau goruchwylio ar lefel y bwrdd / prif swyddog.<br>• Bydd darparwyr gwasanaethau maethu yn sicrhau bod canlyniadau sy’n codi wrth atgyfeirio unrhyw achos yn ymwneud â diogelwch yn cael ei gyfleu i’r unigolyn mewn dull sy’n briodol i’w oed, lefel ei ddealltwriaeth ac yn ystyried ei gyflwr penodol ac unrhyw anghenion cyfathrebu. |
| **Rheoliad 27** | **Canllawiau / Cod Ymarfer** |
| **Gwybodaeth am y gwasanaeth etc.**<br><br>27—(1) Rhaid i’r darparwr gwasanaethau maethu lunio canllaw ysgrifenedig ar y gwasanaeth.<br>(2) Rhaid i’r canllaw—<br>(a) cael ei ddyddio, ei adolygu o leiaf bob blwyddyn a’i ddiweddaru fel y bo angen, | • Bydd llawlyfr ysgrifenedig ar gael i'r rhai a restrir yn rheoliad 27(2)(c) sy'n rhoi gwybodaeth am y gwasanaeth maethu.<br><br>• Bydd y llawlyfr mewn iaith syml ac ar fformat sy'n adlewyrchu anghenion, oedran a lefel ddealltwriaeth y sawl y bwriedir y gwasanaeth maethu ar ei gyfer. Bydd y llawlyfr ar gael mewn fformatau a thrwy gyfryngau sydd ar gael yn hwylus ac yn briodol i'r gynulleidfa. Er enghraifft, iaith briodol ac iaith o ddewis yr unigolyn, print mawr, sain, cymhorthion |

DRAFT

(b) bod mewn iaith, arddull, cyflwyniad a fformat sy’n briodol i blant o bob oedran ac oedolion,

(c) cael ei roi ar gael i—

(i) unrhyw blentyn sydd wedi ei leoli gan y darparwr,

(ii) unrhyw rieni maeth a darpar rieni maeth,

(iii) yr awdurdod lleoli, a

(iv) eraill ar gais, oni bai nad yw hyn yn briodol neu y byddai’n anghyson â llesiant unigolyn.

(3) Rhaid i’r canllaw gynnwys yr wybodaeth a ganlyn—

(a) gwybodaeth am sut i godi pryder neu wneud cwyn,

(b) gwybodaeth am argaeledd gwasanaethau eirioli annibynnol i blant sy’n derbyn gofal gan awdurdod lleol,

(c) gwybodaeth am rôl a manylion cyswllt Comisiynydd Plant Cymru.

(4) Rhaid i’r darparwr gwasanaethau maethu sicrhau bod plant yn cael unrhyw gymorth sy’n angenrheidiol i’w galluogi i ddeall yr wybodaeth a gynhwysir yn y canllaw.

cyfrifiadurol a gweledol. Os bydd gofyn, defnyddir y dull cyfathrebu a ffefrir gan yr unigolion i'w esbonio.

- Os bydd gofyn, rhoddir cymorth i unigolion ddeall cynnwys y llawlyfr a'r hyn y mae'n ei olygu iddynt hwy.

- Bydd y llawlyfr yn rhestru'r meysydd sy'n ofynnol o dan reoliad 27(3) a bydd hefyd yn cynnwys y canlynol:
    - trefniadau ar gyfer cyflwyno'r plentyn i'r rhieni maeth
    - ethos, diwylliant a blaenoriaethau'r gwasanaeth maethu - gan gynnwys crynodeb o'r datganiad o ddiben
    - rôl y rhieni maeth yn y broses arolygu gan Arolygiaeth Gofal Cymru
    - sut i gael gafael ar yr adroddiad arolygu diweddaraf a luniwyd gan Arolygiaeth Gofal Cymru
    - y staff allweddol a fydd yn rhoi cymorth i'r plentyn neu'r rhiant maeth
    - sut i gysylltu â'r unigolyn cyfrifol neu reolwr gwasanaethau maethu'r awdurdodau lleol
    - y weithdrefn gwyno a sut y mae gwneud cwyn
    - manylion cyswllt a rôl Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru, rheoleiddiwr y gwasanaeth, a Chomisiynydd Plant Cymru
    - gwybodaeth am yr hawl i blant sy'n derbyn gofal gael gafael ar wasanaethau eiriolaeth annibynnol
    - trefniadau ar gyfer cyfrannu barn am y ffordd y mae'r gwasanaeth maethu'n cael ei redeg
    - sut y gall plant neu rieni maeth gael gafael ar eu cofnodion eu hunain.

DRAFT

| **Rheoliad 28** | **Canllawiau / Cod Ymarfer** |
|---|---|
| **Gwybodaeth ar gyfer plant**<br>**28—**(1) Rhaid i'r darparwr gwasanaethau maethu roi trefniadau yn eu lle i sicrhau bod gan blant yr wybodaeth y mae ei hangen arnynt i wneud a chymryd rhan mewn penderfyniadau o ddydd i ddydd am y ffordd y darperir gofal a chymorth iddynt a sut y maent yn cael eu cefnogi i gyflawni eu canlyniadau personol.<br>(2) Rhaid i'r wybodaeth a ddarperir fod ar gael mewn iaith, arddull, cyflwyniad a fformat sy'n briodol i blant o bob oedran.<br>(3) Rhaid i'r darparwr gwasanaethau maethu roi trefniadau yn eu lle i sicrhau bod plant yn cael unrhyw gymorth sy'n angenrheidiol i'w galluogi i ddeall yr wybodaeth a ddarperir. | • Mae IFSPs / awdurdodau lleol yn cefnogi rhieni maeth i sicrhau bod plant yn gallu cymryd rhan mewn cynllunio ac adolygu gofal yn ystod eu lleoliad maeth a gwneud penderfyniadau am y ffordd y darperir gofal a chymorth iddynt.<br>• Mae darparwyr gwasanaethau maethu yn sicrhau bod rhieni'n cael yr wybodaeth y mae arnynt ei hangen i ddarparu gofal a chymorth i'r plentyn o ddydd i ddydd yn unol â chynllun gofal a chanlyniadau personol y plentyn<br>• Mae darparwyr gwasanaethau'n rhoi trefniadau ar waith i alluogi unigolion i ddeall yr wybodaeth a ddarperir. |
| **Rheoliad 29** | **Canllawiau / Cod Ymarfer** |
| ▪<br>**Iaith a chyfathrebu**<br>**29—**(1) Rhaid i'r darparwr gwasanaethau maethu sicrhau bod anghenion iaith plant yn cael eu diwallu.<br>(2) Rhaid i'r darparwr gwasanaethau maethu sicrhau y darperir mynediad i unrhyw gymhorthion a chyfarpar sy'n angenrheidiol i blant i hwyluso'r ffordd y mae'r plentyn yn cyfathrebu ag eraill. | • Mae gan ddarparwyr gwasanaethau maethu drefniadau ar waith i gefnogi rhieni maeth ag anghenion iaith plentyn. Mae hyn yn cynnwys:<br>  ○ cyfathrebu â'r plentyn yn ei ddewis iaith<br>  ○ mynediad, lle bo'n briodol, i ddulliau cyfathrebu ychwanegol fel PECS, TEACCH, Makaton, BSL.<br>• Bydd darparwyr gwasanaethau maethu'n nodi anghenion cyfathrebu unigolyn wrth benderfynu a all y gwasanaeth maethu ddiwallu ei anghenion.<br>• Gall plant a rhieni maeth ddeall staff pan fyddant yn |

DRAFT

| | |
|---|---|
| | cyfathrebu â hwy.<br><br>• Bydd darparwyr gwasanaethau maethu yn cyflenwi neu'n gweithio tuag at gynnig eu gwasanaethau yn Gymraeg i blant neu rieni maeth y mae'r Gymraeg yn iaith gyntaf iddynt. |
| **Rheoliad 30** | **Canllawiau / Cod Ymarfer** |
| **Parch a sensitifrwydd**<br><br>30—(1) Rhaid i'r darparwr gwasanaethau maethu roi trefniadau yn eu lle i sicrhau bod plant sydd wedi eu lleoli gan y darparwr yn cael eu trin â pharch a sensitifrwydd.<br>(2) Mae hyn yn cynnwys, ond nid yw'n gyfyngedig i—<br>(a) parchu preifatrwydd ac urddas y plentyn,<br>(b) parchu hawliau'r plentyn i gyfrinachedd,<br>(c) hybu ymreolaeth ac annibyniaeth y plentyn, a<br>(d) rhoi sylw i unrhyw nodweddion gwarchodedig perthnasol (fel y'u diffinnir yn adran 4 o Ddeddf Cydraddoldeb 2010(**2**)) y plentyn. | • Mae darparwyr gwasanaethau maethu yn cefnogi rhieni maeth i sicrhau bod plentyn:<br>○ yn cael gwrandawiad teg a bob pobl yn cyfathrebu â hwy mewn ffordd gwrtais a pharchus a bod eu hanghenion gofal a chymorth yn cael eu blaenoriaethu gan riant maeth<br>○ yn cael eu trin gyda pharch ac yn teimlo ei fod yn cael ei werthfawrogi. |
| **Rheoliad 31** | **Canllawiau / Cod Ymarfer** |
| **Safonau gofal a chymorth i blant**<br><br>31. Rhaid i'r darparwr gwasanaethau maethu sicrhau bod | • Mae ymagwedd darparwyr gwasanaethau maethu lleol at y safonau gofal a chymorth y mae rhaid i riant maeth eu rhoi i blant sy'n cael eu lleoli gyda hwy yn cael ei nodi'n glir yn y datganiad o ddiben. |

(**2**) 2010 p. 15.

| | |
|---|---|
| rhieni maeth yn rhoi gofal a chymorth i blentyn sydd wedi ei leoli gyda hwy—<br>(a) yn unol â chynllun gofal a chymorth y plentyn,<br>(b) mewn ffordd sy’n cynnal, yn amddiffyn ac yn hybu diogelwch a llesiant y plentyn, ac<br>(c) mewn ffordd sy’n annog, yn cynorthwyo ac yn cynnal perthnasoedd personol a phroffesiynol da rhwng y plentyn a’r rhiant maeth. | • Mae darparwyr gwasanaethau maethu yn sicrhau bod y gwasanaeth yn ymatebol ac yn rhagweithiol wrth nodi a lliniaru risgiau.<br>• Mae rhieni maeth yn cael gwybodaeth am anghenion perthnasol y plentyn yn unol â chynllun gofal a chymorth y plentyn.<br>• Cefnogir rhieni maeth i geisio cyngor meddygol a chymorth proffesiynol i blentyn (lle bo'n briodol) neu wneud atgyfeiriad at yr awdurdod lleoli lle bo angen mewn ffordd amserol.<br>• Cefnogir rhieni maeth, trwy oruchwyliaeth a hyfforddiant, i sicrhau eu bod yn darparu gofal a chymorth o ansawdd uchel i ddiwallu anghenion gofal a chymorth y plentyn a'i ganlyniadau personol. Mae hyn yn cynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i'r canlynol:<br>o gofalu am blentyn sydd wedi cael ei gam-drin<br>o sgiliau gofalu diogel<br>o adnabod arwyddion camdriniaeth<br>o hybu a chynnal hunan-barch plentyn<br>o cymorth ymddygiadol cadarnhaol<br>o cymorth cyntaf sylfaenol<br>o hybu Iechyd.<br>• Mae darparwyr gwasanaethau maethu yn sicrhau bod y cymorth y maent yn ei ddarparu'n galluogi'r rheini maeth i ddarparu gofal a chymorth o ansawdd da i'r plant y maent yn eu maethu. Mae hyn yn cynnwys cymorth mewn perthynas â'r canlynol yn achos y plentyn:<br>o llesiant corfforol, meddyliol ac emosiynol<br>o dewisiadau diwylliannol, crefyddol, cymdeithasol neu |

DRAFT

DRAFT

| | |
|---|---|
| | ysbrydol<br>o anghenion o ran addysg, hyfforddiant a hamdden<br>o perthnasoedd personol a theuluol<br>o rheolaeth dros fywyd bob dydd a, lle y bo hynny'n berthnasol, cyfranogi mewn gwaith<br>o datblygiad deallusol, emosiynol ac ymddygiadol;<br>o hawliau a hawliadau, yn enwedig mewn perthynas â Chonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn yn fwyaf uniongyrchol<br>o amddiffyn rhag camdriniaeth ac esgeulustod.<br><br>• Cefnogir rhieni maeth i alluogi'r plentyn i fod mor annibynnol ag sy'n ymarferol.<br><br>• Cefnogir plant a rhieni maeth pan ddaw'r lleoliad i ben, a hynny pan fydd hyn wedi'i gynllunio neu mewn argyfwng.<br><br>• Cefnogir rhieni maeth i sicrhau bod y plentyn yn meithrin ac yn cynnal perthnasau cadarnhaol |
| **Rheoliad 32** | **Canllawiau / Cod Ymarfer** |
| **Dyletswydd i hybu cyswllt**<br><br>32. Rhaid i'r darparwr gwasanaethau maethu sicrhau bod rhieni maeth yn hybu cyswllt rhwng plentyn sydd wedi ei leoli gyda hwy a rhieni, perthnasau a ffrindiau'r plentyn, yn unol â chynllun gofal a chymorth y plentyn ac unrhyw orchymyn llys sy'n ymwneud â chyswllt. | • Cefnogir rhieni maeth i alluogi'r plentyn i gynnal a meithrin cysylltiadau a chyfeillgarwch teuluol yn unol â chynllun gofal a chymorth y plentyn.<br><br>• Lle bo angen, cefnogir rhieni maeth i ddelio ag unrhyw faterion cyswllt anodd a allai godi neu unrhyw ofynion teithio y mae eu hangen.<br><br>• Cefnogir rhieni maeth i ddeall unrhyw gyfyngiadau at gyswllt er mwyn amddiffyn y plentyn rhag unrhyw risg i'w diogelwch neu eu llesiant. |

| Rheoliad 33 | Canllawiau / Cod Ymarfer |
|---|---|
| **Gwrthdaro buddiannau**<br><br>33. Rhaid i'r darparwr gwasanaethau maethu gael trefniadau effeithiol yn eu lle i nodi, cofnodi a rheoli achosion o wrthdaro buddiannau. | • Bydd darparwyr gwasanaethau maethu yn cynnal systemau priodol ac yn cymryd pob cam rhesymol i sicrhau bod gwrthdaro gwirioneddol neu wrthdaro ymddangosiadol rhwng buddiannau'n cael eu nodi, eu hatal a'u cofnodi'n agored ac yr ymdrinnir â hwy. |

| Rheoliad 34 | Canllawiau / Cod Ymarfer |
|---|---|
| **Cofnodion mewn cysylltiad â gwasanaethau maethu**<br><br>34—(1) Rhaid i'r darparwr gwasanaethau maethu gynnal y cofnodion a bennir yn Atodlen 3 am 15 mlynedd.<br>(2) Rhaid i'r darparwr gwasanaethau maethu—<br>(a) sicrhau bod y cofnodion a bennir yn Atodlen 3 yn gywir ac yn gyfredol,<br>(b) cadw pob cofnod yn ddiogel,<br>(c) gwneud trefniadau er mwyn i'r cofnodion barhau i gael eu cadw'n ddiogel os bydd y gwasanaeth yn cau,<br>(d) rhoi'r cofnodion ar gael i Weinidogion Cymru ar gais,<br>(e) yn achos darparwr gwasanaethau maethu annibynnol, sicrhau bod y cofnodion yn cael eu danfon i'r awdurdod lleoli pan fydd y gwasanaeth yn peidio â chael ei ddarparu mewn cysylltiad â'r plentyn y mae'r cofnodion yn ymwneud ag ef,<br>(f) sicrhau bod plant sy'n defnyddio'r gwasanaeth—<br>(i) yn cael eu gwneud yn ymwybodol o'u hawliau i gael | • Mae polisi a gweithdrefn ar waith ar gyfer rheoli cofnodion.<br><br>• Mae'r staff yn ymwybodol o'r polisi ac yn deall yn glir y gweithdrefnau ar gyfer cofnodi a rheoli cofnodion. Bydd hyn yn cynnwys hyfforddiant ym maes gwarchod gwybodaeth a'r camau i'w cymryd pan fydd perygl i wybodaeth bersonol gael ei chyfaddawdu.<br><br>• Mae rhieni maeth yn cael gwybod am y polisi a'r weithdrefn ar gyfer cofnodi a rheoli cofnodion ac yn cael eu cefnogi i gofnodi'r digwyddiadau bywyd arwyddocaol i'r plentyn. Mae rhieni maeth yn deall pa wybodaeth y mae angen iddynt ei throsglwyddo i'r darparwr gwasanaethau maethu am y plentyn.<br><br>• Bydd darparwyr gwasanaethau maethu'n cadw'r holl gofnodion sy'n ofynnol er mwyn amddiffyn unigolion a chynnal y gwasanaeth yn effeithlon yn unol â'r hyn a bennir yn atodlen 3 o'r Rheoliadau.<br><br>• Bydd pob cofnod yn cael ei gadw'n ddiogel, yn cael ei |

DRAFT

| | |
|---|---|
| mynediad i’w cofnodion, a<br>(ii) yn cael mynediad i’w cofnodion fel y mae’r gyfraith yn ei ganiatáu. | ddiweddaru a bydd trefn dda arno. Maent yn cael eu paratoi, eu cynnal a'u defnyddio yn unol â'r ddeddfwriaeth diogelu data a gofynion statudol eraill.<br>• Bydd cofnodion yn cael eu cadw'n ddiogel, gan gynnwys cofnodion electronig o dan warchodaeth cyfrinair.<br>• Bydd plant, rhieni maeth a staff yn cael gweld unrhyw gofnodion a'r wybodaeth a gedwir amdanynt gan y darparwr gwasanaethau maethu yn unol â gofynion cyfreithiol cyfredol. |

DRAFT

## Rhan 7 - polisïau, gweithdrefnau a safonau eraill

| Rheoliad 35 | Canllawiau / Cod Ymarfer |
|---|---|
| **Gofyniad i ddarparu’r gwasanaeth yn unol â pholisïau a gweithdrefnau**<br><br>35—(1) Rhaid i’r darparwr gwasanaethau maethu sicrhau bod y polisïau a’r gweithdrefnau a ganlyn yn eu lle ar gyfer y gwasanaeth—<br>(a) lleoli a chychwyn y gwasanaeth (gweler rheoliad 5 (gofyniad i sicrhau addasrwydd y gwasanaeth)),<br>(b) polisïau a gweithdrefnau diogelu (gweler rheoliad 36),<br>(c) bwlio a dianc (gweler rheoliad 38),<br>(d) defnyddio rheolaeth neu ataliaeth yn briodol (gweler rheoliad 39),<br>(e) amddifadu o ryddid (gweler rheoliad 40),<br>(f) cwynion (gweler rheoliad 41),<br>(g) chwythu’r chwiban (gweler rheoliad 42),<br>(h) meddyginiaeth (gweler rheoliad 44 (iechyd plant sydd wedi eu lleoli gyda rhieni maeth)),<br>(i) cymorth iâr gyfer rhieni maeth o ran sut i helpu plant i reoli eu harian (gweler rheoliad 52),<br>(j) cefnogi a datblygu staff (gweler rheoliad 56),<br>(k) disgyblu staff (gweler rheoliad 58).<br>(2) Rhaid i’r darparwr gwasanaethau maethu hefyd gael unrhyw bolisïau a gweithdrefnau eraill yn eu lle sy’n rhesymol angenrheidiol i gefnogi nodau ac amcanion y gwasanaeth a | • Mae gan ddarparwyr gwasanaethau maethu y polisïau a'r gweithdrefnau yn eu lle fel sy'n ofynnol o dan y Rheoliadau.<br><br>• Bydd y polisïau a’r gweithdrefnau yn gymesur â'r gwasanaeth maethu sy’n cael ei ddarparu yn unol â'r datganiad o ddiben. Lle bo'n gymwys, mae polisïau a gweithdrefnau'n cymryd i ystyriaeth anghenion aelodau eraill o aelwyd y rhiant maeth.<br><br>• Mae darparwyr gwasanaethau maethu'n sicrhau bod polisïau a gweithdrefnau'n adlewyrchu'r trefniadau ar gyfer gwyliau tymor byr i blant, lle darperir y rhain gan y darparwr gwasanaethau maethu.<br><br>• Bydd y polisïau a’r gweithdrefnau:<br>  ○ yn cyd-fynd ag unrhyw ddeddfwriaeth a chanllawiau cenedlaethol cyfredol<br>  ○ yn cynnig arweiniad i staff i sicrhau bod y gwasanaethau yn cael eu darparu yn unol â'r datganiad o ddiben<br>  ○ yn pennu disgwyliadau i hysbysu plant, rhieni maeth a staff am sut y mae'r gwasanaeth maethu yn cael ei ddarparu.<br><br>• Bydd y polisïau, y gweithdrefnau a'r arferion yn cael eu hadolygu a'u diweddaru yng ngoleuni newidiadau i arferion, deddfwriaeth sy'n newid ac argymhellion ynglŷn â'r arferion gorau. |

DRAFT

| | |
|---|---|
| nodir yn y datganiad o ddiben.<br>(3) Rhaid i'r darparwr gwasanaethau maethu sicrhau bod cynnwys y polisïau a'r gweithdrefnau y mae'n ofynnol iddynt fod yn eu lle yn rhinwedd paragraffau (1) a (2)—<br>(a) mewn iaith, arddull, cyflwyniad a fformat sy'n briodol i blant o bob oedran ac oedolion,<br>(b) yn briodol i anghenion plant y darperir gofal a chymorth ar eu cyfer,<br>(c) yn gyson â'r datganiad o ddiben, ac<br>(d) yn cael eu cadw'n gyfredol.<br>(4) Rhaid i'r darparwr gwasanaethau maethu sicrhau bod cynnwys y polisïau a'r gweithdrefnau y mae'n ofynnol iddynt fod yn eu lle o dan baragraff (1)(a), (b), (c) ac (f) yn ystyried anghenion unrhyw blant eraill y gall y lleoliad sy'n cael ei wneud effeithio arnynt.<br>(5) Rhaid i'r darparwr gwasanaethau maethu sicrhau bod y gwasanaeth yn cael ei ddarparu yn unol â'r polisïau a'r gweithdrefnau hynny. | • Bydd y staff, y plant a'r rhieni maeth sy'n defnyddio'r gwasanaeth maethu yn cael y cyfle i ymwneud â datblygu polisïau a gweithdrefnau.<br>• Os bydd y datganiad o ddiben yn newid, bydd y polisïau a'r gweithdrefnau'n cael eu hadolygu a'u diweddaru i adlewyrchu'r newidiadau.<br>• Mae'r darparwyr gwasanaethau yn sicrhau bod staff yn gallu cael gafael ar y polisïau a'r gweithdrefnau sy'n eu cefnogi yn eu rôl.<br>• Mae'r holl bolisïau a gweithdrefnau ar gael ar gais i'r plentyn a/neu'r rhieni maeth sy'n defnyddio'r gwasanaeth maethu (ac, yn achos darparwr gwasanaethau maethu annibynnol, yr awdurdod lleoli perthnasol).<br>• Bydd y polisïau a'r gweithdrefnau ar fformat hygyrch i'r plentyn a'r rhiant maeth, a darperir cymorth i helpu'r plentyn a/neu'r rheini maeth unigolion i'w deall.<br>• Bydd systemau ar gyfer monitro a gwella'n cynnwys y rheini sy'n sicrhau bod y darparwr gwasanaethau maethu yn cael ei redeg yn unol â'r polisïau a'r gweithdrefnau. |
| **Rheoliad 36** | **Canllawiau / Cod Ymarfer** |
| **Polisïau a gweithdrefnau ar ddiogelu**<br>36—(1) Rhaid i'r darparwr gwasanaethau maethu gael polisïau a gweithdrefnau yn eu lle— | • Bydd polisi a gweithdrefn ddiogelu ar waith.<br>• Bydd y polisïau a'r gweithdrefnau'n cyd-fynd â'r ddeddfwriaeth gyfredol, canllawiau cenedlaethol a gweithdrefnau diogelu lleol ar gyfer plant. |

DRAFT

| | |
|---|---|
| (a) ar gyfer atal camdriniaeth, esgeulustod a thriniaeth amhriodol, a<br>(b) ar gyfer ymateb i unrhyw honiad neu dystiolaeth o gamdriniaeth, esgeulustod neu driniaeth amhriodol.<br>(2) Yn y rheoliad hwn, cyfeirir at bolisïau a gweithdrefnau o'r fath fel polisïau a gweithdrefnau diogelu.<br>(3) Rhaid i'r darparwr gwasanaethau maethu sicrhau bod ei bolisïau a'i weithdrefnau diogelu yn cael eu gweithredu'n effeithiol.<br>(4) Yn benodol, pan fo honiad neu dystiolaeth o gamdriniaeth, esgeulustod neu driniaeth amhriodol, rhaid i'r darparwr gwasanaethau maethu—<br>(a) gweithredu yn unol â'i bolisïau a'i weithdrefnau diogelu,<br>(b) cymryd camau gweithredu ar unwaith i sicrhau diogelwch pob plentyn y darperir gofal a chymorth ar ei gyfer,<br>(c) gwneud atgyfeiriadau priodol i asiantaethau eraill, a<br>(d) cadw cofnod o unrhyw dystiolaeth neu sylwedd unrhyw honiad, unrhyw gamau gweithredu a gymerir ac unrhyw atgyfeiriadau a wneir. | • Bydd y polisi a'r gweithdrefnau diogelu'n cynnwys rolau unigol a chyfrifoldebau staff neu bobl eraill sy'n gweithio yn y gwasanaeth maethu, o ran cael a hysbysu honiadau o gam-drin, esgeulustod neu driniaeth amhriodol neu amheuaeth o gam-drin, esgeulustod neu driniaeth amhriodol. Bydd hyn yn cynnwys cyfarwyddiadau i'r staff am y camau i'w cymryd a'r mecanweithiau ar gyfer cyfeirio pobl at yr awdurdod lleol ac at bartneriaid ac asiantaethau perthnasol eraill.<br>• Mae'r polisi a gweithdrefnau diogelu'n cynnwys rôl a chyfrifoldebau rheini maeth mewn perthynas â honiadau neu ddatgeliadau, gan unrhyw blentyn yn aelwyd y rhiant maeth, o gamdriniaeth neu driniaeth amhriodol o unrhyw blentyn yn aelwyd y rhiant maeth. Bydd hyn yn cynnwys sut i roi gwybod am honiadau o'r fath neu eu datgelu i'r darparwr gwasanaethau maethu, yr awdurdod lleoli (os yw'n wahanol) a phartneriaid ac asiantaethau perthnasol eraill.<br>• Mae darparwyr gwasanaethau maethu yn sicrhau bod rhieni maeth a phlant yn cael eu hysbysu am eu hawl i fael Eiriolaeth Broffesiynol Annibynnol o dan Ddeddf 2014. |
| **Rheoliad 37** | **Canllawiau / Cod Ymarfer** |
| **Polisïau a gweithdrefnau ar fwlio a dianc**<br>37. Rhaid i'r darparwr gwasanaethau maethu hefyd gael y polisïau a'r gweithdrefnau a ganlyn yn eu lle—<br>(a) polisi ar atal bwlio,<br>(b) gweithdrefnau ar gyfer ymdrin â honiad o fwlio, ac | • Mae polisi a gweithdrefn bwlio a dianc yn eu lle..<br>• Mae'r polisïau a'r gweithdrefnau'n cyd-fynd â'r ddeddfwriaeth gyfredol, a chanllawiau cenedlaethol.<br>• Mae'r polisi a'r gweithdrefnau bwlio a dianc yn cynnwys rolau unigol a chyfrifoldebau staff neu bobl eraill sy'n gweithio yn y |

DRAFT

| | |
|---|---|
| (c) y weithdrefn sydd i'w dilyn pan yw unrhyw blentyn sydd wedi ei leoli gyda rhieni maeth gan y darparwr yn absennol heb ganiatâd. | gwasanaeth maethu, o ran cael a rhoi gwybod am honiadau o fwlio. Bydd hyn yn cynnwys cyfarwyddiadau i'r staff am y camau i'w cymryd a'r mecanweithiau ar gyfer cyfeirio pobl at yr awdurdod lleol ac at bartneriaid ac asiantaethau perthnasol eraill.<br><br>• Mae'r polisi a'r gweithdrefnau bwlio a dianc yn cynnwys rolau unigol a chyfrifoldebau staff neu bobl eraill sy'n gweithio i'r gwasanaeth maethu, a chyfrifoldebau a rhieni maeth wrth roi gwybod a fydd plentyn yn absennol heb ganiatâd. Bydd hyn yn cynnwys cyfarwyddiadau i'r staff am y camau i'w cymryd a'r mecanweithiau ar gyfer cyfeirio pobl at yr awdurdod lleol ac at bartneriaid ac asiantaethau perthnasol eraill. |
| **Rheoliad 38** | **Canllawiau / Cod Ymarfer** |
| **Polisïau a gweithdrefnau ar ddefnyddio rheolaeth ac ataliaeth yn briodol**<br><br>38—(1) Rhaid i'r darparwr gwasanaethau maethu gael polisi a gweithdrefnau yn eu lle ar ddefnyddio rheolaeth neu ataliaeth.<br><br>(2) Rhaid i'r polisi a'r gweithdrefnau wahardd gofal a chymorth rhag cael eu darparu mewn ffordd sy'n cynnwys gweithredoedd y bwriedir iddynt reoli neu atal plentyn oni bai bod y gweithredoedd hynny—<br><br>(a) yn angenrheidiol i atal risg o niwed a berir i'r plentyn neu i bersonau eraill neu ddifrod difrifol tebygol i eiddo, a<br><br>(b) yn ymateb cymesur i risg o'r fath.<br><br>(3) Rhaid i'r polisi a'r gweithdrefnau ei gwneud yn ofynnol i riant maeth gael ei hyfforddi mewn unrhyw ddulliau rheoli neu | • Mae polisi a gweithdrefn ar waith ynghylch defnyddio rheolaeth ac ataliaeth. Mae'r llythyr hwn yn nodi:<br>○ y disgwyliad ar rieni maeth er mwyn defnyddio dulliau rheoli, atal neu gyfyngu yn briodol sy'n adlewyrchu'r canllawiau cenedlaethol cyfredol a deddfwriaeth<br>○ y gofyniad i hyfforddi mewn unrhyw ddull rheoli neu ataliaeth.<br><br>• Bydd darparwyr gwasanaethau maethu yn sicrhau bod dull gweithredu cadarnhaol yn cael ei fabwysiadu i gan rieni maeth i roi cymorth gydag ymddygiad plentyn. Bydd unrhyw ymagwedd at roi cymorth gydag ymddygiad plentyn yn gyson â<br>○ diwallu anghenion gofal a chymorth y plentyn<br>○ ac yn cefnogi llesiant aelodau eraill i deulu'r rhiant maeth y gallai'r lleoliad a wneir effeithio arnynt. |

DRAFT

| | |
|---|---|
| atal sydd i'w defnyddio.<br>(4) Rhaid i'r polisi a'r gweithdrefnau ei gwneud yn ofynnol i gofnod gael ei wneud o fewn 24 awr i unrhyw ddigwyddiad pan ddefnyddir rheolaeth neu ataliaeth.<br>(5) Rhaid i'r darparwr gwasanaethau maethu sicrhau bod unrhyw reolaeth neu ataliaeth a ddefnyddir gan rieni maeth yn cael ei chyflawni yn unol â'r polisïau a'r gweithdrefnau hyn.<br>(6) At ddibenion y rheoliad hwn, mae person yn rheoli neu'n atal plentyn os yw'r person hwnnw—<br>(a) yn defnyddio, neu'n bygwth defnyddio, grym i sicrhau bod gweithred yn cael ei gwneud y mae'r plentyn yn ei gwrthsefyll, neu<br>(b) yn cyfyngu ar ryddid symud y plentyn, pa un a yw'r plentyn yn gwrthsefyll ai peidio, gan gynnwys drwy ddefnyddio dulliau corfforol, mecanyddol neu gemegol. | • Bydd staff a rheini maeth yn ymwybodol o'r polisi ynghylch defnyddio rheolaeth ac ataliaeth yn briodol, ac yn deall y polisi hwn ac yn cael gwybodaeth reolaidd am unrhyw newidiadau i'r polisi a gweithdrefnau.<br>• Bydd rhieni maeth yn cael hyfforddiant ar gymorth ymddygiad sy'n berthnasol i'w rôl ac ar lefel briodol er mwyn sicrhau mai dim ond pan fydd hynny'n gwbl angenrheidiol a phan na fydd dewis arall, y defnyddir unrhyw ddulliau rheoli, atal neu gyfyngu, a hynny yn unol â'r canllawiau cenedlaethol cyfredol.<br>• Mae darparwyr gwasanaethau maethu yn sicrhau bod trefniadau yn eu lle er mwyn i rieni maeth sy'n defnyddio ataliaeth yn gallu gwirio:<br>  o nad yw ond yn cael ei ddefnyddio fel rhan o ddull rhagweithiol i roi cymorth ar gyfer ymddygiad<br>  o ei bod yn gymesur â'r risg o niwed a difrifoldeb y niwed hwnnw i'r plentyn sy'n cael gofal a chymorth gan rywun arall<br>  o yn ystyried yr asesiad o anghenion yr unigolyn a'i allu i gydsynio i driniaeth o'r fath<br>  o yn dilyn y ddeddfwriaeth a'r canllawiau cyfredol.<br>• Mae darparwyr gwasanaethau maethu yn monitro ac adolygu'n rheolaidd yr ymagwedd at ddulliau atal a chyfyngu a'r ffordd y caiff y dulliau hyn eu defnyddio gan rieni maeth, gan adrodd am hyn o fewn eu fframwaith llywodraethu.<br>• Mae gan ddarparwyr gwasanaethau maethu drefniadau ar waith i sicrhau bod digwyddiadau'n cael eu hysbysu gan rieni maeth o fewn 24 awr. |

DRAFT

| | |
|---|---|
| | • Bydd cofnodion ar ddefnyddio dulliau rheoli ac atal yn cael eu hadolygu, a bydd adrodd yn eu cylch o fewn yr adolygiad o ansawdd gofal. |
| **Rheoliad 39** | |
| **Gwaharddiad ar ddefnyddio cosb gorfforol**<br><br>39. Rhaid i'r darparwr gwasanaethau maethu sicrhau nad yw rhieni maeth yn defnyddio unrhyw fath o gosb gorfforol ar unrhyw adeg yn erbyn unrhyw blentyn. | |
| **Rheoliad 40** | **Canllawiau / Cod Ymarfer** |
| **Amddifadu o ryddid**<br><br>40. Ni chaniateir amddifadu unigolyn o'i ryddid at ddiben cael gofal a chymorth heb awdurdod cyfreithlon. | • Mae gan ddarparwyr gwasanaethau maethu drefniadau ar waith i sicrhau bod rhieni maeth yn ymwybodol bod rhaid iddynt weithredu bob amser yn unol â'r ddeddfwriaeth gyfredol a'r canllawiau /Codau Ymarfer cymwys ar amddifadu o ryddid.<br><br>• Mae staff, a lle bo'n briodol, rieni maeth, yn cael eu hyfforddi ar adegau priodol ac yn unol ag unrhyw newidiadau i ddeddfwriaeth a chanllawiau/Codau Ymarfer ar amddifadu o ryddid. |

DRAFT

| Rheoliad 41 | Canllawiau / Cod Ymarfer |
|---|---|
| **Polisïau a gweithdrefnau ar chwynion**<br><br>41—(1) Rhaid i'r darparwr gwasanaethau maethu gael polisi cwyno yn ei le a sicrhau bod y gwasanaeth yn cael ei weithredu yn unol â'r polisi hwnnw.<br>(2) Rhaid i'r darparwr gwasanaethau maethu sicrhau bod y personau a ganlyn yn ymwybodol o fodolaeth y polisi cwyno a chymryd pob cam rhesymol i roi copi o'r weithdrefn gwyno mewn fformat priodol neu mewn unrhyw fformat y gofynnir amdano i—<br>(a) unrhyw blentyn sydd wedi ei leoli gan y darparwr,<br>(b) rhieni unrhyw blentyn o'r fath,<br>(c) rhieni maeth a darpar rieni maeth, a<br>(d) yn achos darparwr gwasanaethau maethu annibynnol, awdurdod lleol unrhyw blentyn sydd wedi ei leoli ganddo.<br>(3) Rhaid i'r darparwr gwasanaethau maethu sicrhau bod y personau sy'n gweithio i'r gwasanaeth maethu yn cael eu hysbysu am y polisi cwyno, bod copi o'r polisi cwyno yn cael ei roi iddynt a'u bod yn cael eu hyfforddi'n briodol ynghylch gweithredu'r polisi cwyno. | • Mae polisi cwyno yn ei le. Mae hwn yn cynnwys manylion y gweithdrefnau a nodir yn y rheoliad hwn.<br><br>• Mae'r polisi mewn fformat hawdd ei ddarllen, wedi'i gyhoeddi'n dda, ar gael yn hwylus ac yn hygyrch i blant a rhieni maeth sy'n defnyddio'r gwasanaeth maethu.<br><br>• Nid yw plant, rhieni'r plant hynny a rhieni maeth yn destun gwahaniaethu neu anfantais o ganlyniad i gwyno. |
| (4) Rhaid i'r polisi cwyno gynnwys gweithdrefnau ar gyfer ystyried cwynion a wneir i'r darparwr gwasanaethau maethu gan neu ar ran plant sydd wedi eu lleoli gan y darparwr ynghylch—<br>(a) y darparwr, | • Mae gan ddarparwyr gwasanaethau maethu weithdrefn gwyno hawdd ei defnyddio sy'n cynnwys cam datrys anffurfiol, a bydd yn esbonio:<br>    ○ pwy all wneud cwyn ac mewn perthynas â beth<br>    ○ at bwy y dylid mynd i drafod pryder/cwyn |

DRAFT

| | |
|---|---|
| (b) rhieni maeth, ac<br>(c) unrhyw fater arall y mae'r darparwr yn ystyried ei fod yn berthnasol.<br>(5) Rhaid i'r polisi cwyno gynnwys gweithdrefnau ar gyfer ystyried cwynion a wneir i'r darparwr gwasanaethau maethu gan rieni maeth ynghylch—<br>(a) y darparwr, a<br>(b) unrhyw fater arall y mae'r darparwr yn ystyried ei fod yn berthnasol.<br>(6) Rhaid i'r polisi cwyno gynnwys gweithdrefnau ar gyfer ystyried cwynion a wneir i'r darparwr gwasanaethau maethu gan rieni unrhyw blentyn sydd wedi ei leoli gan y darparwr ynghylch—<br>(a) y darparwr, a<br>(b) unrhyw fater arall y mae'r darparwr yn ystyried ei fod yn berthnasol.<br>(7) Rhaid i'r weithdrefn gwyno gynnwys—<br>(a) enw, cyfeiriad a rhif ffôn Gweinidogion Cymru, a<br>(b) gwybodaeth am y cynhorthwy sydd ar gael i achwynwyr, gan gynnwys cynhorthwy o ran sut i gael mynediad i wasanaethau eirioli. | ○ sut y gellir cefnogi unigolion i wneud cwyn<br>○ gwybodaeth am gael eiriolaeth annibynnol, os bydd ar gael<br>○ sut yr ymdrinnir â chwynion<br>○ camau amserlenni'r broses;<br>○ sut i uwchgyfeirio pryder/cwyn at yr awdurdod comisiynu, y Comisiynydd Plant a/neu Arolygiaeth Gofal Cymru.<br><br>• Mae plant neu rieni maeth yn gallu gwneud eu cwyn yn ysgrifenedig neu ar lafar i'r staff.<br><br>• Mae staff yn ymwybodol o'r gweithdrefnau cwyno ac yn eu deall. |
| (8) Rhaid i'r darparwr gwasanaethau maethu roi trefniadau effeithiol yn eu lle ar gyfer ymdrin â chwynion gan gynnwys trefniadau ar gyfer—<br>(a) nodi cwynion ac ymchwilio iddynt,<br>(b) sicrhau bod camau gweithredu priodol yn cael eu cymryd yn dilyn ymchwiliad, ac | • Mae gan ddarparwyr gwasanaethau maethu drefniadau effeithiol ar waith i ymdrin â chwynion.<br><br>• Mae cwynion yn cael eu cydnabod oni bai eu bod yn cael eu gwneud yn ddienw. |

DRAFT

| | |
|---|---|
| (c) cadw cofnodion sy’n ymwneud â’r materion yn is-baragraffau (a) i (b).<br>(9) Rhaid i’r darparwr gwasanaethau maethu ddarparu crynodeb o gwynion, ymatebion ac unrhyw gamau gweithredu dilynol a gymerir i Weinidogion Cymru o fewn 28 o ddiwrnodau i gael cais i wneud hynny.<br>(10) Rhaid i’r darparwr gwasanaethau maethu—<br>(a) dadansoddi gwybodaeth sy’n ymwneud â chwynion a phryderon; a<br>(b) gan roi sylw i’r dadansoddiad hwnnw, nodi unrhyw feysydd i’w gwella. | • Mae staff yn deall sut i ymateb yn briodol i gwynion yn unol â pholisi a gweithdrefnau darparwr y gwasanaeth maethu.<br><br>• Mae darparwyr gwasanaethau maethu yn sicrhau bod y gŵyn yn cael ei chadarnhau, yn cael sylw'n ddi-oed a bod yr achwynydd yn cael gwybod am unrhyw ddatblygiadau.<br><br>• Bydd adroddiad ysgrifenedig yn cael ei ddarparu i’r achwynydd yn nodi canlyniad y gŵyn ac unrhyw gamau i’w cymryd.<br><br>• Rhaid cael cydsyniad a sicrhau cyfrinachedd drwy gydol y broses gwyno oni fydd rhwymedigaethau proffesiynol neu statudol sy'n golygu na fyddai hyn yn bosibl, fel y rheini sy’n ymwneud â diogelu.<br><br>• Bydd systemau ar waith i sicrhau yr ymchwilir i bob cwyn yn unol â’r amserlenni sydd wedi’u nodi ym mholisi cwynion y darparwr gwasanaethau maethu. Bydd hyn yn cynnwys y canlynol:<br>a. cynnal adolygiad i bennu lefel yr ymchwiliad a'r camau y bydd gofyn eu cymryd ar unwaith, gan gynnwys cyfeirio'r achos at yr awdurdodau priodol er mwyn cynnal ymchwiliad (gallai hyn gynnwys rheoleiddiwr y gwasanaeth neu dimau diogelu'r awdurdodau lleol)<br>b. os gwelir bod meysydd lle mae angen gwella neu lle mae'r gwasanaeth yn methu, gweithredu ar y rhain ar unwaith.<br><br>• Bydd gan staff a phobl eraill sy'n ymwneud ag ymchwilio i gwynion y lefel gywir o wybodaeth a sgiliau i wneud hyn. |

DRAFT

| | |
|---|---|
| | • Bydd cofnodion o gwynion yn cael eu cadw a'u monitro i nodi tueddiadau a meysydd risg lle y gall fod angen cymryd camau.<br><br>• Bydd adroddiad ynghylch y camau a gymerir i ymateb i gwynion fel rhan o'r trefniadau llywodraethu ar gyfer y gwasanaeth maethu. |
| **Rheoliad 42** | **Canllawiau / Cod Ymarfer** |
| **Chwythu’r chwiban**<br><br>42—(1) Rhaid i’r darparwr gwasanaethau maethu sicrhau bod pob person sy’n gweithio yn y gwasanaeth (gan gynnwys unrhyw berson y caniateir iddo weithio fel gwirfoddolwr), rhieni maeth (gan gynnwys darpar rieni maeth) a phlant sydd wedi eu lleoli gan y darparwr yn gallu codi pryderon am y gwasanaeth.<br><br>(2) Rhaid i’r trefniadau hyn gynnwys—<br>(a) cael polisi chwythu’r chwiban yn ei le a gweithredu yn unol â’r polisi hwnnw,<br>(b) sefydlu trefniadau i alluogi a chefnogi pobl sy’n gweithio yn y gwasanaeth i godi pryderon o’r fath,<br>(c) sefydlu trefniadau i alluogi a chefnogi rhieni maeth a darpar rieni maeth i godi pryderon o’r fath, a<br>(d) sefydlu trefniadau i alluogi a chefnogi plant sydd wedi eu lleoli gan y darparwr i godi pryderon o’r fath.<br><br>(3) Rhaid i’r darparwr gwasanaethau maethu sicrhau bod y trefniadau sy’n ofynnol o dan y rheoliad hwn yn cael eu | • Bydd polisi a gweithdrefn chwythu'r chwiban ar waith. Mae hyn yn cynnwys:<br>c. y drefn ar gyfer lleisio pryder<br>d. y dulliau diogelu sydd ar waith ar gyfer staff, rhieni maeth neu ddarpar rieni maeth sy'n codi pryder<br>e. sut yr ymchwilir i bryderon.<br><br>• Bydd staff a rheini maeth yn ymwybodol o sut mae lleisio pryderon, a byddant wedi cael hyfforddiant ar sut mae gwneud hyn, a bydd mecanweithiau a chymorth ar gael i’w galluogi i wneud hyn.<br><br>• Bydd cydsyniad a chyfrinachedd yn cael eu sicrhau drwy gydol y broses ymchwilio oni fydd rhwymedigaethau proffesiynol neu statudol sy'n golygu na fyddai hyn yn bosibl, fel y rheini sy’n ymwneud â diogelu.<br><br>• Ni fydd plant, rhieni maeth a staff yn wynebu unrhyw wahaniaethu nac anfantais yn sgil mynegi eu pryderon. |

DRAFT

| | |
|---|---|
| gweithredu'n effeithiol.<br>(4) Pan godir pryder, rhaid i'r darparwr gwasanaethau maethu sicrhau—<br>(a) yr ymchwilir i'r pryder,<br>(b) y cymerir camau priodol yn dilyn ymchwiliad, ac<br>(c) y cedwir cofnod sy'n ymwneud â'r materion yn is-baragraffau (a) i (b). | • Cedwir cofnodion o bryderon a'u monitro i nodi tueddiadau a meysydd risg lle y gallai fod angen cymryd camau. Bydd camau a gymerir wrth ymateb i chwythu'r chwiban yn cael eu hysbysu o fewn trefniadau llywodraethu. |
| **Rheoliad 43** | **Canllawiau / Cod Ymarfer** |
| **Cydymffurfio â pholisïau a gweithdrefnau gan rieni maeth**<br>43. Rhaid i'r darparwr gwasanaethau maethu sicrhau bod rhieni maeth yn gyfarwydd â'r polisïau a'r gweithdrefnau a sefydlir yn unol â'r Rheoliadau hyn a'i bod yn ofynnol iddynt weithredu yn unol â hwy | • Mae gan ddarparwyr gwasanaethau maethu drefniadau ar waith i sicrhau bod rhieni maeth yn gyfarwydd â'r polisïau a'r gweithdrefnau a nodir yn rheoliad 35(a)-(h) ac yn glynu wrthynt. |

## Rhan 8 – Iechyd ac addysg

| **Rheoliad 44** | **Canllawiau / Cod Ymarfer** |
|---|---|
| **Iechyd plant sydd wedi eu lleoli gyda rhieni maeth**<br>44—(1) Rhaid i'r darparwr gwasanaethau maethu sicrhau bod rhieni maeth yn hybu iechyd a datblygiad plant sydd wedi eu | • Mae gan ddarparwyr gwasanaethau maethu drefniadau ar waith i sicrhau bod iechyd a llesiant plant a leolir gyda rhieni maeth yn cael ei hyrwyddo. Mae hyn yn cynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i'r canlynol: |

DRAFT

| | |
|---|---|
| lleoli gyda hwy.<br>(2) Yn benodol, rhaid i’r darparwr gwasanaethau maethu sicrhau bod rhieni maeth—<br>(a) yn cofrestru pob plentyn ag ymarferydd cyffredinol,<br>(b) yn darparu i bob plentyn fynediad i unrhyw gyngor, triniaeth a gwasanaethau meddygol, deintyddol, nyrsio, seicolegol a seiciatrig y mae eu hangen ar y plentyn,<br>(c) yn darparu i bob plentyn unrhyw gymorth, cymhorthion a chyfarpar unigol y mae eu hangen ar y plentyn o ganlyniad i unrhyw anghenion iechyd neu anabledd penodol sydd ganddo, a<br>(d) yn darparu i bob plentyn ganllawiau, cymorth a chyngor ynghylch iechyd, gofal personol a materion hybu iechyd sy’n briodol i anghenion a dymuniadau’r plentyn.<br>(3) Rhaid i’r darparwr gwasanaethau maethu gael polisi a gweithdrefnau yn eu lle mewn perthynas â rhoi meddyginiaethau gan rieni maeth. | ○ sicrhau bod rhieni maeth yn cael eu cefnogi i sicrhau bod plentyn yn iach ac yn egnïol<br>○ cefnogi rhieni maeth i sicrhau bod plentyn yn cael ei gofrestru ag ymarferydd cyffredinol<br>○ cefnogi rhieni maeth i sicrhau bod plentyn yn gallu cael mynediad i wasanaethau gofal sylfaenol eraill neu wasanaethau arbenigol eraill yn ôl y gofyn<br>○ lle bo'n briodol, cefnogi rhieni maeth i sicrhau bod plentyn yn cael archwiliadau perthnasol ar eu synhwyrau ac yn cael cymorth i gael adolygiadau parhaus.<br>○ cefnogi rhieni maeth i sicrhau bod unrhyw gymhorthion, cymhorthion clyw, sbectol, etc y mae ar blentyn eu hangen yn cael eu caffael a'u cynnal yn briodol er mwyn cael eu defnyddio'n effeithiol<br>○ cefnogi rhieni maeth i adnabod anghenion emosiynol unigolion ac ymateb yn gadarnhaol i anghenion emosiynol a llesiant meddyliol plant yn enwedig pan fyddant yn wynebu anhawster, er enghraifft pan fydd plentyn yn unig, yn drallodus, yn mynd drwy gyfnod pontio neu brofedigaeth, neu'n teimlo'n bryderus, yn isel neu'n dioddef o fathau eraill o salwch meddwl.<br>• Bydd polisi a gweithdrefn ar waith ar weinyddu meddyginiaethau gan rieni maeth, yn unol ag unrhyw ddeddfwriaeth a chanllawiau cenedlaethol cyfredol. Mae rhieni maeth yn gwybod am y polisi a'r weithdrefn hon ac yn ei deall. |

DRAFT

| Rheoliad 45 | Canllawiau / Cod Ymarfer |
|---|---|
| **Addysg, cyflogaeth a gweithgareddau hamdden**<br><br>45—(1) Rhaid i'r darparwr gwasanaethau maethu sicrhau bod cyrhaeddiad addysgol plant sydd wedi eu lleoli gyda rhieni maeth yn cael ei hybu.<br><br>(2) Yn benodol, rhaid i'r darparwr gwasanaethau maethu—<br><br>(a) sefydlu gweithdrefn ar gyfer monitro cyrhaeddiad addysgol, cynnydd a phresenoldeb yn yr ysgol plant sydd wedi eu lleoli gyda rhieni maeth,<br><br>(b) mewn perthynas â phlant oedran ysgol sydd wedi eu lleoli gyda rhieni maeth, sicrhau bod rhieni maeth yn hybu presenoldeb rheolaidd y plant yn yr ysgol a'u cyfranogiad mewn gweithgareddau ysgol, ac<br><br>(c) darparu i rieni maeth unrhyw wybodaeth a chynhorthwy, gan gynnwys cyfarpar, sy'n angenrheidiol i ddiwallu anghenion addysgol plant sydd wedi eu lleoli gyda hwy.<br><br>(3) Rhaid i'r darparwr gwasanaethau maethu sicrhau bod rhieni maeth yn hybu diddordebau hamdden plant sydd wedi eu lleoli gyda hwy.<br><br>(4) Pan fo unrhyw blentyn sydd wedi ei leoli gyda rhieni maeth wedi cyrraedd yr oedran pan na fo'n ofynnol iddo gael addysg lawnamser orfodol mwyach, rhaid i'r darparwr gwasanaethau maethu gynorthwyo i wneud y trefniadau a wneir ar gyfer y plentyn mewn cysylltiad â'i addysg, ei hyfforddiant a'i gyflogaeth, a rhoi effaith i'r trefniadau hynny. | • Mae gan ddarparwyr gwasanaethau maethu drefniadau ar waith i sicrhau bod cyrhaeddiad addysgol a gweithgarwch hamdden plant a leolir gyda rhieni maeth yn cael eu hyrwyddo. Mae hyn yn cynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i'r canlynol:<br><br>○ cefnogi rhieni maeth i fod yn rhan o'r gwaith o asesu, cynllunio ac adolygu anghenion addysgol plentyn, gan gynnwys unrhyw anghenion dysgu ychwanegol, gan gyfrannu yn ôl yr angen at unrhyw gynllun addysg personol<br><br>○ cefnogi'r rhiant maeth i ddeall ei rôl wrth ymwneud ag ysgol y plentyn (neu unrhyw leoliad addysgol arall)<br><br>○ cefnogi rhieni maeth i sicrhau bod plentyn yn cymryd rhan yn llawn mewn addysg<br><br>○ cefnogi rhieni maeth i gyflawni potensial plentyn a gwneud pethau sydd o bwys i'r plentyn ac sy'n ei wneud yn hapus. Gall hyn gynnwys cael cymorth i gymryd rhan mewn gweithgareddau hamdden, datblygu a chynnal diddordebau, ymuno â gweithgareddau yn y gymuned a gwirfoddoli.<br><br>• Mae gan ddarparwyr gwasanaethau maethu drefniadau ar waith i fonitro cyrhaeddiad addysgol, cynnydd a phresenoldeb plentyn a leolir gyda rhieni maeth yn yr ysgol. |

DRAFT

| Rheoliad 46 | Canllawiau / Cod Ymarfer |
|---|---|
| **Mangreoedd, cyfleusterau a chyfarpar - darparwyr gwasanaethau maethu**<br><br>46. Rhaid i'r darparwr gwasanaethau maethu sicrhau bod y mangreoedd, y cyfleusterau a'r cyfarpar a ddefnyddir ar gyfer gweithredu'r gwasanaeth yn addas, gan roi sylw i'r datganiad o ddiben ar gyfer y gwasanaeth. | • Rhaid i leoliad, cynllun a maint yr eiddo fod yn addas ar gyfer y gwasanaeth sy'n cael ei ddisgrifio yn y datganiad o ddiben. |
| **Rheoliad 47** | **Canllawiau / Cod Ymarfer** |
| **Digonolrwydd mangreoedd**<br><br>47. Rhaid i'r darparwr gwasanaethau maethu sicrhau bod gan y mangreoedd a ddefnyddir ar gyfer gweithredu'r gwasanaeth gyfleusterau digonol ar gyfer—<br>(a) goruchwylio staff, a<br>(b) storio cofnodion yn ddiogel. | • Mae gan ddarparwyr gwasanaethau maethu le addas yn y safle, megis ystafell gyfarfod a rennir, i sicrhau preifatrwydd ar gyfer goruchwylio staff.<br><br>• Mae cofnodion yn cael eu cadw'n ddiogel yn unol â gofynion deddfwriaethol. |
| **Rheoliad 48** | **Canllawiau / Cod Ymarfer** |
| **Mangreoedd, cyfleusterau a chyfarpar - rhieni maeth** | • Mae gan ddarparwyr gwasanaethau maethu drefniadau ar waith i fonitro'r safle, y cyfleusterau a'r offer a ddefnyddir gan |

DRAFT

| | |
|---|---|
| 48—(1) Rhaid i'r darparwr gwasanaethau maethu rhoi trefniadau yn eu lle i sicrhau bod y mangreoedd, y cyfleusterau a'r cyfarpar a ddefnyddir gan rieni maeth ar gyfer darparu gofal a chymorth i blant—<br>(a) yn addas ac yn ddiogel i'r diben y bwriedir iddynt gael eu defnyddio ato,<br>(b) yn cael eu defnyddio mewn ffordd ddiogel,<br>(c) yn cael eu cynnal a'u cadw'n briodol, a<br>(d) yn cael eu cadw'n lân yn unol â safon sy'n briodol i'r diben y maent yn cael eu defnyddio ato.<br>(2) Rhaid i'r darparwr gwasanaethau maethu sicrhau bod rhieni maeth yn cael eu hyfforddi'n briodol ynghylch sut i weithredu unrhyw gyfarpar y maent yn ei ddefnyddio wrth ddarparu gofal a chymorth i blentyn. | rieni maeth i ddarparu gofal a chymorth i unigolyn sydd wedi'i leoli gyda nhw. |

## Rhan 10 - Cymorth i Rieni Maeth

| **Rheoliad 49** | **Canllawiau / Cod Ymarfer** |
|---|---|
| **Cymorth, hyfforddiant a gwybodaeth ar gyfer rhieni maeth**<br>49—(1) Rhaid i'r darparwr gwasanaethau maethu sicrhau bod gan rieni maeth yr wybodaeth y mae ei hangen arnynt i ddarparu gofal a chymorth i blentyn sydd wedi ei leoli gyda hwy yn unol â chynllun gofal a chymorth y plentyn. | • Mae darparwyr gwasanaethau maethu yn sicrhau bod rhieni maeth yn cael y cymorth, yr hyfforddiant angenrheidiol i'w galluogi i ddarparu gofal a chymorth i unrhyw blentyn y maent yn ei faethu yn unol â chynllun gofal a chymorth y plentyn. Nodir meysydd penodol o gymorth, hyfforddiant a gwybodaeth yn y Rheoliadau hyn. |

DRAFT

| | |
|---|---|
| (2) Rhaid i’r darparwr gwasanaethau maethu sicrhau bod rhieni maeth yn cael unrhyw hyfforddiant, cyngor a chymorth, gan gynnwys cymorth y tu allan i oriau swyddfa, y mae’n ymddangos eu bod yn angenrheidiol er budd plant sydd wedi eu lleoli gyda’r rhieni maeth ac i’w galluogi i ddarparu gofal a chymorth i’r plentyn yn unol â chynllun gofal a chymorth y plentyn.<br>(3) Rhaid i’r darparwr gwasanaethau maethu sicrhau bod darpar rieni maeth yn cael unrhyw hyfforddiant, gwybodaeth a chyngor yr ystyrir eu bod yn angenrheidiol.<br>(4) Rhaid i’r darparwr gwasanaethau maethu fonitro ac adolygu’r wybodaeth, yr hyfforddiant, y cyngor a’r cymorth a ddarperir i rieni maeth a darpar rieni maeth a gwneud unrhyw welliannau sy’n angenrheidiol. | • mae darparwyr gwasanaethau maethu yn darparu neu'n trefnu darparu hyfforddiant, gwybodaeth a chyngor yn ôl yr amgen i ddarpar rieni maeth.<br>• Mae gan ddarparwyr gwasanaethau drefniadau ar waith i fonitro ac adolygu'r cymorth a'r cyngor, yr hyfforddiant a'r wybodaeth a roddir i ddarpar rieni maeth. Mae hyn yn bwydo i'r adolygiad Ansawdd Gofal.<br>• Mae unrhyw argymhellion ar gyfer gwella yn dilyn adolygiad yn rhan o'r adolygiad ansawdd nesaf - gweler Rheoliad 72 (darparwyr gwasanaethau maethu annibynnol) neu Reoliad 85 (awdurdodau lleol). |
| **Rheoliad 50** | **Canllawiau / Cod Ymarfer** |
| **Goruchwylio**<br>50. Rhaid i’r darparwr gwasanaethau maethu sicrhau bod rhieni maeth yn cael eu goruchwylio’n briodol. | • Mae gan ddarparwyr gwasanaethau maeth drefniadau ar waith i oruchwylio'r rheini maeth a'r plentyn sydd wedi'i leoli â nhw. |
| **Rheoliad 51** | **Canllawiau / Cod Ymarfer** |
| **Perthnasoedd gwaith effeithiol**<br>51. Rhaid i’r darparwr gwasanaethau maethu—<br>(a) cynnal perthnasoedd proffesiynol da â rhieni maeth; a | • Mae darparwyr gwasanaethau maeth yn cefnogi gofalwyr lleoli oedolion i ddatblygu a chynnal perthynas gadarnhaol â'r plentyn sydd wedi'i leoli â nhw. |

DRAFT

| | |
|---|---|
| (b) annog a chynorthwyo rhieni maeth i gynnal perthnasoedd personol da â phlant sydd wedi eu lleoli gyda hwy. | |
| **Rheoliad 52** | **Canllawiau / Cod Ymarfer** |
| **Cefnogi plant i reoli eu harian**<br><br>52—(1) Rhaid i’r darparwr gwasanaethau maethu gael polisi a gweithdrefnau yn eu lle i alluogi rhieni maeth i ddarparu cymorth a chynhorthwy i blant o ran sut i reoli eu harian.<br><br>(2) Rhaid i’r polisi a’r gweithdrefnau y mae’n ofynnol gan y rheoliad hwn iddynt fod yn eu lle nodi’r camau sydd i’w cymryd gan rieni maeth i alluogi a chefnogi plant i reoli eu harian eu hunain ac i amddiffyn plant rhag camdriniaeth ariannol.<br><br>(3) Pan fo’r rhieni maeth yn dal arian plentyn at unrhyw ddiben, rhaid i’r polisi a’r gweithdrefnau sy’n ofynnol gan y rheoliad hwn ddarparu bod yr arian yn cael ei ddal mewn cyfrif yn enw’r plentyn neu mewn cyfrif sy’n ei gwneud yn bosibl darnodi arian y plentyn yn glir. | • Mae polisi a gweithdrefnau ar waith sy'n nodi trefniadau ar gyfer cefnogi rhieni maeth i reoli arian plant a leolir gyda hwy. Mae hyn yn cynnwys:<br>○ sut y mae plant yn cael eu hannog a'u cefnogi i ymdrin â'u harian eu hunain<br>○ sut y rhoddir cymorth i blant, gan gynnwys agor a rheoli cyfrifon banc unigol, cyllidebu a gwneud penderfyniadau am wario<br>○ sut y rhoddir cymorth i unigolion ddeall rheoli unrhyw beryglon cysylltiedig.<br><br>• Os na fydd unigolion yn gallu rheoli eu harian eu hunain, cedwir cofnodion a derbynebau gan y rhiant maeth o unrhyw drafodion ariannol a wneir ar eu rhan. |

DRAFT

| Rheoliad 53 | Canllawiau / Cod Ymarfer |
| --- | --- |
| **Staffio - gofynion cyffredinol**<br>53 - Rhaid i'r darparwr gwasanaethau maethu sicrhau ar bob adeg fod nifer digonol o staff sydd â'r cymwysterau, yr hyfforddiant, y sgiliau, y cymhwysedd a'r profiad addas yn cael eu defnyddio i weithio yn y gwasanaeth, gan roi sylw—<br>(a) i'r datganiad o ddiben ar gyfer y gwasanaeth,<br>(b) i anghenion gofal a chymorth plant,<br>(c) i'r angen i gefnogi plant i gyflawni eu canlyniadau personol,<br>(d) i'r angen i ddiogelu a hybu iechyd a lles plant, ac<br>(e) i ofynion y Rheoliadau hyn. | • Bydd gan ddarparwyr gwasanaethau maeth ddull mesuradwy, systematig amlwg ar waith i bennu nifer y staff a'r ystod o sgiliau/cymwysterau sy'n ofynnol i gefnogi anghenion plant, rhieni maeth a darpar rieni maeth Mae hyn yn ystyried, ond heb fod yn gyfyngedig i'r canlynol:<br>  ○ y datganiad o ddiben<br>  ○ anghenion gofal a chymorth y plentyn<br>  ○ cefnogi a goruchwylio rhieni maeth i roi gofal a chymorth i blentyn.<br>• Bydd lefelau staffio a'r gymysgedd sgiliau'n cael eu hadolygu'n barhaus ac yn cael eu haddasu i ymateb i'r newid yn anghenion y gwasanaeth maethu.<br>• Bydd trefniadau ar waith i ymateb i salwch neu absenoldeb staff er mwyn sicrhau bod anghenion gofal a chymorth yn cael eu diwallu a bod rhieni maeth yn cael cymorth i gyflawni eu canlyniadau personol.<br>• Bydd gweithdrefnau i'w dilyn os bydd argyfwng sy'n sicrhau bod digon o staff addas ar gael i ymateb i waith brys ac i wneud gwaith arferol y gwasanaeth maethu. |
| **Rheoliad 54** | **Canllawiau / Cod Ymarfer** |

DRAFT

**Addasrwydd staff**

54—(1) Ni chaiff y darparwr gwasanaethau maethu—

(a) cyflogi person o dan gontract cyflogaeth i weithio yn y gwasanaeth oni bai bod y person hwnnw yn addas i wneud hynny,

(b) caniatáu i wirfoddolwr weithio yn y gwasanaeth oni bai bod y person hwnnw yn addas i wneud hynny, nac

(c) caniatáu i unrhyw berson arall weithio yn y gwasanaeth mewn swydd y gall, yng nghwrs ei ddyletswyddau, gael cysylltiad rheolaidd ynddi â phlant sy’n cael gofal a chymorth oni bai bod y person hwnnw yn addas i wneud hynny.

(2) At ddibenion paragraff (1), nid yw person yn addas i weithio yn y gwasanaeth oni bai—

(a) bod y person yn addas o ran ei uniondeb ac o gymeriad da,

(b) bod gan y person y cymwysterau, y sgiliau, y cymhwysedd a’r profiad sy’n angenrheidiol ar gyfer y gwaith y mae i’w wneud,

(c) bod y person, oherwydd ei iechyd, ar ôl i addasiadau rhesymol gael eu gwneud, yn gallu cyflawni’n briodol y tasgau sy’n rhan annatod o’i rôl,

(d) bod y person wedi darparu gwybodaeth neu ddogfennaeth lawn a boddhaol, yn ôl y digwydd, mewn cysylltiad â phob un o’r materion a bennir yn Rhan 1 o Atodlen 4, a bod yr wybodaeth hon neu’r ddogfennaeth hon ar gael yn y gwasanaeth i Weinidogion Cymru edrych arni, ac

- Bydd gan ddarparwyr gwasanaethau maethu systemau trwyadl ar waith ar gyfer dethol ac archwilio cefndir pob aelod o'r staff a gwirfoddolwyr er mwyn iddynt allu penderfynu a ddylid eu penodi neu eu gwrthod. Mae hyn yn cynnwys y wybodaeth sydd yn atodlen 4 o'r Rheoliadau. Mae hyn hefyd yn cynnwys sicrhau cywirdeb geirdaon a chofnodion cyflogaeth flaenorol.

- Os defnyddir staff asiantaeth, bydd darparwyr gwasanaethau maethu'n sicrhau bod yr un archwiliadau'n cael eu cynnal ar eu cyfer ag a gynhelir ar gyfer staff a gyflogir yn barhaol, a bydd ganddynt dystiolaeth i ddangos bod yr archwiliadau hyn wedi'u gwneud. Gallai hyn gynnwys cadarnhad a rhestrau gwirio a ddarperir gan unrhyw asiantaeth.

- Rhoddir ystyriaeth gadarnhaol i gynnwys plant a rhieni maeth sy'n defnyddio'r gwasanaeth wrth recriwtio staff newydd.

- Bydd gan ddarparwyr gwasanaethau maethu broses ar waith i sicrhau bod staff wedi cofrestru'n briodol â rheoleiddiwr proffesiynol a'r cofrestriad hwnnw'n un cyfredol lle bydd gofyn neu, lle y bo hynny'n berthnasol, eu bod ar gofrestr wirfoddol achrededig.

- Wedi ystyried yr holl wybodaeth sydd ar gael, dylai darparwyr gwasanaethau benderfynu a oes gan yr unigolyn y sgiliau, y cymwysterau a'r cymeriad angenrheidiol i gyflawni'r rôl y mae'n cael ei gyflogi/ei roi ar waith i'w chyflawni.

- Os na fydd staff yn cyflawni'r meini prawf addasrwydd mwyach a nodir yn rheoliad 54(2), bydd y darparwyr gwasanaethau maethu'n cymryd camau priodol yn ddi-oed i

DRAFT

| | |
|---|---|
| (e) pan fo'r person wedi ei gyflogi gan y darparwr gwasanaethau maethu i reoli'r gwasanaeth, fod y person wedi ei gofrestru fel rheolwr gofal cymdeithasol â Gofal Cymdeithasol Cymru.<br>(3) Rhaid i gais gael ei wneud am y dystysgrif y cyfeirir ati ym mharagraffau 2 a 3 o Ran 1 o Atodlen 4 (y cyfeirir ati yn y rheoliad hwn fel tystysgrif GDG) gan neu ar ran y darparwr gwasanaethau maethu at ddiben asesu addasrwydd person ar gyfer y swydd y cyfeirir ati ym mharagraff (1). Ond nid yw'r gofyniad hwn yn gymwys os yw'r person sy'n gweithio yn y gwasanaeth wedi ei gofrestru â gwasanaeth diweddaru'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (y cyfeirir ato yn y rheoliad hwn fel gwasanaeth diweddaru'r GDG).<br>(4) Pan fo person sy'n cael ei ystyried ar gyfer swydd y cyfeirir ati ym mharagraff (1) wedi ei gofrestru â gwasanaeth diweddaru'r GDG, rhaid i'r darparwr gwasanaethau maethu wirio statws tystysgrif GDG y person at ddiben asesu addasrwydd y person hwnnw ar gyfer y swydd honno.<br>(5) Pan fo person a benodir i swydd y cyfeirir ati ym mharagraff (1) wedi ei gofrestru â gwasanaeth diweddaru'r GDG, rhaid i'r darparwr gwasanaethau maethu wirio statws tystysgrif GDG y person o leiaf bob blwyddyn.<br>(6) Pan na fo person a benodir i swydd y cyfeirir ati ym mharagraff (1) wedi ei gofrestru â gwasanaeth diweddaru'r GDG, rhaid i'r darparwr gwasanaethau maethu wneud cais am dystysgrif GDG newydd mewn cysylltiad â'r person hwnnw o fewn tair blynedd i ddyroddi'r dystysgrif y gwneir cais amdani yn unol â pharagraff (3) ac wedi hynny rhaid i geisiadau pellach o'r fath gael eu gwneud o leiaf bob tair blynedd.<br>(7) Os nad yw person sy'n gweithio yn y gwasanaeth maethu | sicrhau na fydd risg i unigolion. Er enghraifft, gallai hyn gynnwys:<br>○ hyfforddi a mentora<br>○ darparu hyfforddiant a goruchwyliaeth ychwanegol<br>○ defnyddio gweithdrefnau disgyblu.<br>• Bydd darparwyr gwasanaethau maethu'n sicrhau bod staff yn cydymffurfio â'r codau ymarfer proffesiynol a, lle y bo hynny'n briodol, bydd darparwyr yn atgyfeirio achosion at y cyrff proffesiynol perthnasol yn achos staff lle mae amheuaeth ynghylch pa mor addas ydynt.<br>• Os oes unrhyw bryderon bod aelod o staff wedi cam-drin plentyn neu wedi rhoi unigolyn mewn perygl o gael ei gam-drin, bydd y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd ac unrhyw gorff cofrestru proffesiynol perthnasol yn cael gwybod yn ddi-oed. |

DRAFT

| | |
|---|---|
| yn addas i weithio yn y gwasanaeth mwyach o ganlyniad i beidio â bodloni un neu ragor o'r gofynion ym mharagraff (2), rhaid i'r darparwr gwasanaethau maethu—<br>(a) cymryd camau gweithredu angenrheidiol a chymesur i ddiogelu plant, a<br>(b) pan fo'n briodol, hysbysu—<br>(i) Gofal Cymdeithasol Cymru,<br>(ii) y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd. | |
| **Rheoliad 55** | |
| **Cyfyngiadau ar gyflogaeth**<br>55—(1) Ni chaiff y darparwr gwasanaethau maethu gyflogi i weithio, at ddibenion y gwasanaeth maethu, mewn swydd y mae paragraff (2) yn gymwys iddi, berson sydd—<br>(a) yn rhiant maeth sydd wedi ei gymeradwyo gan y gwasanaeth maethu, neu<br>(b) yn aelod o aelwyd rhiant maeth o'r fath.<br>(2) Mae'r paragraff hwn yn gymwys i unrhyw swydd reoli, swydd gwaith cymdeithasol neu swydd broffesiynol arall, oni bai bod y gwaith yn cael ei wneud yn achlysurol, fel gwirfoddolwr, neu am ddim mwy na 5 awr mewn unrhyw wythnos, yn achos swydd nad yw'n swydd reoli nac yn swydd gwaith cymdeithasol. | |
| **Rheoliad 56** | **Canllawiau / Cod Ymarfer** |
| **Cefnogi a datblygu staff**<br>56—(1) Rhaid i'r darparwr gwasanaethau maethu gael polisi yn ei le ar gyfer cefnogi a datblygu staff. | • Mae darparwyr gwasanaethau maethu'n sicrhau bod ganddynt raglen sefydlu sy'n rhoi'r adnoddau i bob aelod newydd o staff fod yn gymwys yn eu rolau ac ymarfer. Mae |

DRAFT

| | |
|---|---|
| (2) Rhaid i'r darparwr gwasanaethau maethu sicrhau bod unrhyw berson sy'n gweithio yn y gwasanaeth (gan gynnwys person y caniateir iddo weithio fel gwirfoddolwr)—<br>(a) yn cael cyfnod sefydlu sy'n briodol i'w rôl,<br>(b) yn cael ei wneud yn ymwybodol o'i gyfrifoldebau ei hun a chyfrifoldebau staff eraill,<br>(c) yn cwblhau cyfnod prawf yn foddhaol fel sy'n ofynnol,<br>(d) yn cael ei oruchwylio a'i arfarnu'n briodol,<br>(e) yn cael hyfforddiant craidd sy'n briodol i'r gwaith sydd i'w wneud ganddo,<br>(f) yn cael hyfforddiant arbenigol fel y bo'n briodol, ac<br>(g) yn cael cymorth a chynhorthwy i gael unrhyw hyfforddiant pellach sy'n briodol i'r gwaith y mae'n ei wneud.<br>(3) Rhaid i'r darparwr gwasanaethau maethu sicrhau bod unrhyw berson a gyflogir i weithio yn y gwasanaeth yn rheolwr yn cael ei gefnogi i gynnal ei gofrestriad â Gofal Cymdeithasol Cymru. | staff yn deall eu rolau a'u cyfrifoldebau.<br><br>• Bydd gweithwyr gofal cymdeithasol yn cwblhau'r rhaglen sefydlu berthnasol sy'n ofynnol gan Gofal Cymdeithasol Cymru o fewn yr amserlen sydd wedi'i diffinio yn ogystal ag unrhyw feysydd sy'n benodol i'r gwasanaeth.<br><br>• Bydd staff yn gallu cael gafael ar gopïau o unrhyw godau ymarfer proffesiynol perthnasol a chanllawiau ymarfer, gan gynnwys unrhyw rhai sydd wedi'i nodi gan Gofal Cymdeithasol Cymru. Bydd y safonau sydd yn y codau a'r canllawiau ymarfer hyn yn cael eu hyrwyddo'n frwd.<br><br>• Pan ddefnyddir staff asiantaeth, rhoddir cyflwyniad i'r gwasanaeth iddynt sy'n cynnwys, ond heb ei gyfyngu i'r canlynol:<br>  ○ y datganiad o ddiben<br>  ○ polisïau a gweithdrefnau craidd<br>  ○ trefniadau rheoli.<br><br>• Bydd staff yn cael eu goruchwylio yn eu rôl i i'w helpu i bwyso a mesur eu hymarfer a sicrhau eu bod yn cynnal safon eu cymhwysedd proffesiynol. Bydd hyn yn cynnwys adborth am eu perfformiad gan unigolion sy'n defnyddio'r gwasanaeth maethu.<br><br>• Bydd pob aelod o staff yn cael ei harfarnu bob blwyddyn a bydd hynny'n gyfle i roi adborth am eu perfformiad a nodi meysydd lle bydd angen hyfforddiant a datblygu er mwyn eu cynorthwyo yn eu rôl.<br><br>• Bydd staff yn cael cymorth i ddilyn hyfforddiant, i ddysgu ac i |

DRAFT

| | |
|---|---|
| | ddatblygu i'w galluogi i gyflawni gofynion eu rôl a diwallu anghenion unigolion sy'n defnyddio'r gwasanaeth.<br><br>• Bydd darparwyr gwasanaethau maethu'n dadansoddi'r anghenion hyfforddi bob blwyddyn (neu cyn hynny os bydd angen) er mwyn sicrhau bod gan staff y sgiliau a'r cymhwysedd perthnasol i ddiwallu anghenion unigolion yn unol â’r datganiad o ddiben.<br><br>• Bydd darparwyr gwasanaethau maethu'n cadw cofnod ysgrifenedig o'r holl hyfforddiant a goruchwyliaeth, sy'n ofynnol a'r hyn sydd wedi'i gwblhau.<br><br>• Bydd darparwyr gwasanaethau maethu’n cynorthwyo'r holl staff i gwblhau, lle y bo hynny’n briodol:<br>o hyfforddiant craidd<br>o hyfforddiant a gweithgarwch gofynnol ar gyfer datblygiad proffesiynol parhaus<br>o hyfforddiant arall y tybir ei fod yn briodol gan y darparwr gwasanaethau maethu<br>o hyfforddiant craidd ac arbenigol y bydd Gofal Cymdeithasol Cymru'n nodi ei fod yn gyson â'u rôl. |
| **Rheoliad 57** | **Canllawiau / Cod Ymarfer** |
| **Gwybodaeth ar gyfer staff**<br><br>57—(1) Rhaid i’r darparwr gwasanaethau maethu sicrhau y darperir gwybodaeth i bob person sy’n gweithio yn y gwasanaeth (gan gynnwys unrhyw berson y caniateir iddo | • Bydd darparwyr gwasanaethau maethu'n casglu gwybodaeth ac yn ei darparu ar gyfer y staff yn unol â'r datganiad o ddiben. Mae hyn yn cynnwys gwybodaeth am y materion a ganlyn:<br>o ethos a diwylliant<br>o yr ymddygiad a ddisgwylir gan staff neu weithwyr |

DRAFT

| | |
|---|---|
| weithio fel gwirfoddolwr) am y gwasanaeth a'r ffordd y caiff ei ddarparu.<br><br>(2) Rhaid i'r darparwr gwasanaethau maethu sicrhau bod trefniadau yn eu lle i wneud staff yn ymwybodol o unrhyw godau ymarfer ynghylch y safonau ymddygiad a ddisgwylir oddi wrth weithwyr gofal cymdeithasol, y mae'n ofynnol i Ofal Cymdeithasol Cymru eu cyhoeddi o dan adran 112(1)(a) o'r Ddeddf. | eraill<br>○ rolau a chyfrifoldebau staff neu weithwyr eraill<br>○ polisïau a gweithdrefnau<br>○ y gofynion o ran cadw cofnodion<br>○ cyfrinachedd a gofynion diogelu data<br>○ gweithdrefnau disgyblu<br>○ trefniadau ar gyfer rhoi gwybod am bryderon<br>○ trefniadau ar gyfer pobl sy'n gweithio ar eu pennau eu hunain.<br><br>• Bydd darparwyr gwasanaethau maethu'n sicrhau bod staff yn gallu cael gafael ar y copïau diweddaraf o'r holl bolisïau, gweithdrefnau a chodau ymarfer, a'u bod yn eu deall. Maent yn sicrhau bod staff wedi darllen y rhain yn ystod y cyfnod sefydlu ac yn profi aelodau staff eu bod yn eu deall drwy eu goruchwylio ac adolygu eu perfformiad.<br><br>• Bydd darparwyr gwasanaethau maethu'n sicrhau bod staff yn cyflawni eu dyletswyddau'n unol â gofynion polisïau a gweithdrefnau.<br><br>• Bydd yr holl staff yn cael disgrifiad swydd ysgrifenedig sy'n datgan eu cyfrifoldebau'n glir, y dyletswyddau y disgwylir iddynt eu cyflawni ar y pryd a'u llinell atebolrwydd. |
| **Rheoliad 58** | **Canllawiau / Cod Ymarfer** |
| **Gweithdrefnau disgyblu**<br><br>58—(1) Rhaid i'r darparwr gwasanaethau maethu roi gweithdrefn ddisgyblu yn ei lle a'i gweithredu. | • Bydd gan ddarparwyr gwasanaethau maethu weithdrefn ddisgyblu, yn unol â chyfreithiau cyflogaeth, i ymdrin â pherfformiad ac ymddygiad cyflogeion.<br><br>• Os yw'r darparwr gwasanaethau maethu yn cynnal |

DRAFT

| | |
|---|---|
| (2) Rhaid i'r weithdrefn ddisgyblu gynnwys—<br>(a) darpariaeth ar gyfer atal dros dro, a chymryd camau gweithredu heb fod mor bell ag atal dros dro, gyflogeion er budd diogelwch neu lesiant plant sy'n defnyddio'r gwasanaeth, a<br>(b) darpariaeth bod methiant ar ran cyflogai i adrodd am achos o gam-drin, neu am amheuaeth o gam-drin, i berson priodol yn sail dros ganiatáu cychwyn achos disgyblu.<br>(3) At ddiben paragraff (2)(b), person priodol yw—<br>(a) un o swyddogion Gweinidogion Cymru,<br>(b) y darparwr gwasanaethau maethu,<br>(c) yr unigolyn cyfrifol,<br>(d) swyddog i'r awdurdod lleol,<br>(e) yn achos cam-drin neu amheuaeth o gam-drin plentyn, swyddog i'r Gymdeithas Genedlaethol er Atal Creulondeb i Blant,<br>(f) swyddog heddlu,<br>yn ôl y digwydd. | gweithdrefn ddisgyblu yn erbyn unrhyw gyflogai a bod y cyflogai'n gadael yn ystod y broses ddisgyblu, a bod y camymddwyn/diffyg galluogrwydd yn destun pryder a'r cyflogai wedi'i gofrestru gyda Gofal Cymdeithasol Cymru, bydd y darparwr gwasanaethau yn hysbysu Gofal Cymdeithasol Cymru am ei bryderon.<br><br>• Bydd y darparwr gwasanaethau maethu'n sicrhau bod y staff yn ymwybodol o'r gweithdrefnau disgyblu ac unrhyw weithdrefnau cwyno, ac yn eu deall.<br><br>• Bydd adroddiad ysgrifenedig am unrhyw ymchwiliadau disgyblu a'r camau a gymerir yn cael ei gadw ar ffeil y gweithiwr yn unol â pholisïau/gweithdrefnau'r sefydliad a gofynion diogelu data. |

DRAFT

## Pennod 4: Y gofynion ar Unigolion Cyfrifol (rhan 12 o'r Rheoliadau)

**Mae'r bennod hon yn gymwys i ddarparwyr gwasanaethau maethu annibynnol yn unig. Nodir y dyletswyddau rheolwyr gwasanaethau maethu'r awdurdodau lleol ym Mhennod 5 o'r ddogfen hon.**

Mae Rhannau 12 o'r Rheoliadau yn nodi gofynion i sicrhau bod unigolyn dynodedig ar lefel uwch briodol (yr unigolyn cyfrifol) yn atebol am ansawdd y gwasanaeth a hefyd am gydymffurfio. Bydd y Rheoliadau'n gosod gofynion penodol ar yr unigolyn cyfrifol a bydd yn galluogi rheoleiddiwr y gwasanaethau maethu i gymryd camau yn erbyn y darparwr gwasanaethau maethu ond hefyd yn erbyn yr unigolyn cyfrifol oni chydymffurfir â'r gofynion rheoliadol.

Bydd yr unigolyn cyfrifol yn gyfrifol am **oruchwylio** rheolaeth y gwasanaeth ac am roi sicrwydd bod y gwasanaeth yn ddiogel, yn cael ei redeg yn dda ac yn cydymffurfio â'r rheoliadau. Bydd yr unigolyn cyfrifol yn gyfrifol am sicrhau bod gan y gwasanaeth reolwr, a digon o adnoddau a chefnogaeth. Nid yr unigolyn cyfrifol fydd yn gyfrifol am reolaeth y gwasanaeth o ddydd i ddydd (heblaw ei fod yn rheolwr hefyd); y rheolwr fydd yn gyfrifol am hyn.

| Rheoliad 60 | Canllawiau |
|---|---|
| **Goruchwylio'r gwaith o reoli'r gwasanaeth**<br><br>60. Rhaid i'r unigolyn cyfrifol oruchwylio'r gwaith o reoli'r gwasanaeth. | • Bydd yr unigolyn cyfrifol yn dilyn y systemau a'r prosesau a ragnodwyd gan y darparwr gwasanaethau maethu er mwyn galluogi goruchwyliaeth briodol dros reolaeth, ansawdd, diogelwch ac effeithiolrwydd y gwasanaethau maethu. Bydd hyn yn cynnwys sicrhau bod y gwasanaeth yn gwneud y canlynol, ond nid dim ond hynny:<br>o canolbwyntio ar anghenion y plentyn a'r rhieni maeth<br>o gwrando ar blant a rhieni maeth<br>o ymateb yn gadarnhaol i unrhyw bryderon neu gwynion<br>o sicrhau nad yw plant neu rieni maeth yn cael eu rhoi mewn perygl diangen<br>o sicrhau'r canlyniadau gorau posibl i blant a rhieni maeth<br>o cyflawni'r datganiad o ddiben |

| | |
|---|---|
| | ○ cyflogi nifer ddigonol o staff sydd wedi'u hyfforddi, sy'n gymwys yn fedrus i gyflawni eu rôl.<br><br>• Bydd gan yr unigolyn cyfrifol systemau i adolygu ac asesu sut mae'r rheolwr yn rhoi camau ar waith a nodwyd yng nghanfyddiadau adroddiadau sicrhau ansawdd mewnol ac arolygu allanol, o fewn yr amserlenni a bennwyd.<br><br>• Bydd llinellau atebolrwydd, dirprwyo a chyfrifoldeb clir ar gael yn ysgrifenedig rhwng yr unigolyn cyfrifol a'r rheolwr (heblaw mai'r rheolwr yw'r unigolyn cyfrifol hefyd).<br><br>• Bydd trefniadau ar waith i'r rheolwr allu cysylltu'n uniongyrchol â'r unigolyn cyfrifol yn ogystal â'r cyfle i gyfarfod yn ffurfiol fel rhan o adolygiadau ansawdd yr unigolyn cyfrifol (heblaw mai'r rheolwr yw'r unigolyn cyfrifol hefyd).<br><br>• Bydd trefniadau ar waith i sicrhau bod y rheolwr yn cael cymorth drwy ei oruchwylio a'i hyfforddi, a rhoi cyfle iddo feddu ar sgiliau ar gyfer ei ddatblygiad proffesiynol sy'n gefn iddo yn ei rôl. |
| **Rheoliad 61** | **Canllawiau** |
| **Ymweliadau**<br><br>61. (1) Rhaid i'r unigolyn cyfrifol—<br>(a) ymweld â'r fangre y darperir y gwasanaeth ohoni,<br>(b) cwrdd ag aelodau o staff sydd wedi eu cyflogi gan y darparwr gwasanaethau maethu annibynnol o bob man y | • Bydd yr unigolyn cyfrifol yn ymweld â'r gwasanaeth yn bersonol i fonitro perfformiad y gwasanaeth yng nghyswllt ei ddatganiad o ddiben ac i lywio'r broses oruchwylio ac adolygu ansawdd. Bydd yr ymweliad yn cynnwys y canlynol:<br>○ siarad, gyda chydsyniad ac yn breifat, â phlant, a rhieni maeth sy'n defnyddio'r gwasanaeth ac unrhyw gynrychiolwyr (os yw'n berthnasol) a staff.<br>○ archwilio safle'r darparwr gwasanaethau maethu, y |

DRAFT

| | |
|---|---|
| mae'r unigolyn cyfrifol wedi ei ddynodi mewn cysylltiad ag ef, ac<br>(c) cwrdd â'r plant sydd wedi eu lleoli gan y darparwr gwasanaethau maethu annibynnol a'u rhieni maeth.<br>(2) Mae amlder ymweliadau a chyfarfodydd o'r fath i'w benderfynu gan yr unigolyn cyfrifol, gan roi sylw i'r datganiad o ddiben, ond rhaid i'r rhain gael eu cynnal o leiaf bob tri mis. | dewis o gofnodion o ddigwyddiadau ac unrhyw gofnodion o gwynion.<br>• Bydd yr unigolyn cyfrifol yn sicrhau bod systemau ar waith i ddarparu tystiolaeth bod ymweliadau wedi'u logio a'u cofnodi |
| **Rheoliad 62** | **Canllawiau** |
| **Dyletswydd i benodi rheolwr**<br><br>62—(1) Rhaid i'r unigolyn cyfrifol benodi person i reoli'r gwasanaeth. Ond nid yw'r gofyniad hwn yn gymwys os yw'r amodau ym mharagraff (2) neu (3) yn gymwys.<br>(2) Pan fo'r darparwr gwasanaethau maethu annibynnol yn unigolyn, yr amodau yw—<br>(a) bod y darparwr gwasanaethau maethu annibynnol yn bwriadu rheoli'r gwasanaeth,<br>(b) bod y darparwr gwasanaethau maethu annibynnol yn addas i reoli'r gwasanaeth,<br>(c) bod y darparwr gwasanaethau maethu annibynnol wedi ei gofrestru fel rheolwr â Gofal Cymdeithasol Cymru, a<br>(d) bod Gweinidogion Cymru yn cytuno i'r darparwr gwasanaethau maethu annibynnol reoli'r gwasanaeth.<br>(3) Pan fo'r darparwr gwasanaethau maethu annibynnol yn bartneriaeth, yn gorff corfforaethol neu'n gorff anghorfforedig, yr amodau yw— | • Bydd yr unigolyn cyfrifol yn sicrhau bod rheolwr sydd wedi'i gofrestru â Gofal Cymdeithasol Cymru yn cael ei benodi ac yn ei le i reoli'r gwaith o ddarparu'r gwasanaeth maethu o ddydd i ddydd<br><br>• Bydd yr unigolyn cyfrifol yn ysgwyddo'r cyfrifoldeb a'r atebolrwydd dros benodi'r rheolwyr, ni waeth a yw'n rhan uniongyrchol o'r broses recriwtio neu beidio.<br><br>• Bydd yr unigolyn cyfrifol yn dawel ei feddwl bod yr unigolyn a benodir i fod yn rheolwr y gwasanaeth yn meddu ar y wybodaeth, y sgiliau a'r cymhwysedd priodol i reoli'r gwasanaeth yn ddiogel ac yn ddibynadwy.<br><br>• Bydd yr unigolyn cyfrifol yn dangos bod diwydrwydd dyladwy wedi'i ddangos wrth benodi'r rheolwr yn ogystal â dilyn gofynion rheoliad 54 (addasrwydd staff).<br><br>• Os bydd rheolwr yn absennol am gyfnod o fwy na thri mis, bydd y darparwr gwasanaeth maethu'n sicrhau bod rheolwr |

| | |
|---|---|
| (a) bod y darparwr gwasanaethau maethu annibynnol yn cynnig bod yr unigolyn sydd wedi ei ddynodi fel yr unigolyn cyfrifol am y gwasanaeth i'w benodi i reoli'r gwasanaeth,<br>(b) bod yr unigolyn hwnnw yn addas i reoli'r gwasanaeth,<br>(c) bod yr unigolyn hwnnw wedi ei gofrestru fel rheolwr â Gofal Cymdeithasol Cymru, a<br>(d) bod Gweinidogion Cymru yn cytuno i'r unigolyn hwnnw reoli'r gwasanaeth.<br>(4) At ddibenion paragraff (2)(b), nid yw'r darparwr gwasanaethau maethu annibynnol yn addas i reoli'r gwasanaeth oni bai bod gofynion rheoliad 54(2) (addasrwydd staff) wedi eu bodloni mewn cysylltiad â'r darparwr gwasanaethau maethu annibynnol.<br>(5) Nid yw'r ddyletswydd ym mharagraff (1) wedi ei chyflawni os yw'r person a benodir i reoli'r gwasanaeth yn absennol am gyfnod o fwy na thri mis. | sydd â'r cymwysterau, y profiad a'r cymhwysedd priodol, ac wedi'i gofrestru â Gofal Cymdeithasol Cymru, yn ei le i reoli'r gwasanaeth maethu. |
| **Rheoliad 63** | **Canllawiau** |
| **Gofynion o ran addasrwydd ar gyfer penodi rheolwr**<br>63—(1) Ni chaiff yr unigolyn cyfrifol benodi person i reoli'r gwasanaeth oni bai bod y person hwnnw yn addas i wneud hynny.<br>(2) At ddibenion paragraff (1), nid yw person yn addas i reoli'r gwasanaeth oni bai bod gofynion rheoliad 54(2) (addasrwydd staff) wedi eu bodloni mewn cysylltiad â'r person hwnnw. | • Bydd gan yr unigolyn cyfrifol drefniadau addas i sicrhau bod y rheolwr yn addas ac yn alluog i redeg y gwasanaeth maethu yn unol â'i ddatganiad o ddiben. Bydd hyn yn cynnwys sicrhau:<br>○ bod gan y rheolwr y cymwysterau priodol;<br>○ bod y rheolwr wedi'i gofrestru â Gofal Cymdeithasol Cymru<br>○ bod y rheolwr yn brofiadol wrth ddarparu gwasanaeth maethu |

DRAFT

| | |
|---|---|
| | ○ bod y broses o archwilio cefndir darpar reolwyr yn cynnwys yr archwiliadau perthnasol sy'n ofynnol gan y deddfwriaeth i dawelu meddwl yr unigolyn cyfrifol bod yr unigolyn yn addas ac yn alluog i weithio gyda phlant. |
| **Rheoliad 64** | **Canllawiau** |
| **Cyfyngiadau ar benodi rheolwr ar gyfer mwy nag un gwasanaeth**<br>64—(1) Ni chaiff yr unigolyn cyfrifol benodi person i reoli mwy nag un gwasanaeth, oni bai bod paragraff (2) yn gymwys.<br>(2) Mae'r paragraff hwn yn gymwys—<br>(a) os yw'r darparwr gwasanaethau maethu annibynnol wedi gwneud cais i Weinidogion Cymru am ganiatâd i benodi rheolwr ar gyfer mwy nag un gwasanaeth, a<br>(b) os yw Gweinidogion Cymru wedi eu bodloni—<br>(i) na fydd y trefniadau rheoli arfaethedig yn cael effaith andwyol ar y gofal a'r cymorth a ddarperir i blant, a<br>(ii) y bydd y trefniadau rheoli arfaethedig yn darparu goruchwyliaeth ddibynadwy ac effeithiol o bob gwasanaeth. | • Pan gaiff rheolwr ei benodi i reoli mwy nag un gwasanaeth maethu, cytunir ar hyn ymlaen llaw â rheoleiddiwr y gwasanaeth. |
| **Rheoliad 65** | **Canllawiau** |
| **Dyletswydd i adrodd am benodiad rheolwr** | • Bydd gan yr unigolyn cyfrifol drefniadau addas ar waith i:<br>○ hysbysu'r darparwr gwasanaethau maethu am fanylion penodiad y rheolwr |

DRAFT

| | |
|---|---|
| 65—(1) Wrth benodi rheolwr yn unol â rheoliad 62(1) rhaid i’r unigolyn cyfrifol roi hysbysiad—<br>(a) i’r darparwr gwasanaethau maethu annibynnol—<br>(i) o enw’r person a benodir, a<br>(ii) o’r dyddiad y mae’r penodiad i gymryd effaith; a<br>(b) Ofal Cymdeithasol Cymru a Gweinidogion Cymru—<br>(i) o enw, dyddiad geni a rhif cofrestru Gofal Cymdeithasol Cymru y person a benodir, a<br>(ii) o’r dyddiad y mae’r penodiad i gymryd effaith.<br>(2) Pan fo darparwr gwasanaethau maethu annibynnol sy’n unigolyn i reoli’r gwasanaeth, rhaid i’r unigolyn hwnnw roi hysbysiad i Ofal Cymdeithasol Cymru—<br>(a) o’i enw, ei ddyddiad geni a’i rif cofrestru Gofal Cymdeithasol Cymru, a<br>(b) o’r dyddiad y bydd yn rheoli’r gwasanaeth ohono. | ○ darparu'r wybodaeth a bennir gan y Rheoliadau sy’n ymwneud â’r unigolyn;<br>○ hysbysu rheoleiddiwr y gwasanaeth a Gofal Cymdeithasol Cymru pan benodir rheolwr newydd. |
| **Rheoliad 66** | **Canllawiau** |
| **Y trefniadau pan yw'r rheolwr yn absennol**<br>66—(1) Rhaid i’r unigolyn cyfrifol roi trefniadau addas yn eu lle i sicrhau bod y gwasanaeth yn cael ei reoli’n effeithiol ar unrhyw adeg pan nad oes rheolwr neu pan fydd y rheolwr yn absennol o’r gwasanaeth.<br>(2) Os nad oes rheolwr neu os yw’r rheolwr yn absennol am gyfnod o fwy nag 28 o ddiwrnodau, rhaid i’r unigolyn cyfrifol—<br>(a) rhoi gwybod i’r darparwr gwasanaethau maethu | • Bydd gan yr unigolyn cyfrifol strwythurau ar waith sy'n sicrhau, os na fydd y rheolwr ar gael neu os bydd yn absennol am unrhyw reswm, y bydd system ddirprwyo effeithiol a chymwys ar waith i ddarparu arweiniad o ddydd i ddydd sydd:<br>○ yn parhau i roi cymorth i'r rhieni maeth a/neu'r plentyn a leolir gyda'r rhiant maeth<br>○ yn cynnal diogelwch, ansawdd ac effeithiolrwydd y gwasanaeth maethu<br>○ sicrhau yr amherir cyn lleied â phosibl ar y plentyn |

DRAFT

| | |
|---|---|
| annibynnol a Gweinidogion Cymru, a<br>(b) eu hysbysu am y trefniadau sydd wedi eu rhoi yn eu lle ar gyfer rheoli’r gwasanaeth yn effeithiol. | neu'r rhieni maeth sy'n defnyddio'r gwasanaeth maethu<br>○ yn sicrhau bod y gwasanaeth yn cydymffurfio â'r rheoliadau<br>○ yn cynnal datblygiad proffesiynol staff.<br><br>• Os na fydd y rheolwr, wedi'i gofrestru â Gofal Cymdeithasol Cymru, ar gael neu os bydd yn absennol am unrhyw reswm am fwy na 28 diwrnod, bydd yr unigolyn cyfrifol yn hysbysu rheoleiddiwr y gwasanaeth yn ysgrifenedig ac yn ddi-oed am y rheswm dros yr absenoldeb a'r trefniadau i ddarparu rheolwr yn ei le. |
| **Rheoliad 67** | **Canllawiau** |
| **Goruchwylio digonolrwydd adnoddau**<br>67—(1) Rhaid i’r unigolyn cyfrifol adrodd i’r darparwr gwasanaethau maethu annibynnol am ddigonolrwydd yr adnoddau sydd ar gael i ddarparu’r gwasanaeth yn unol â gofynion y Rheoliadau hyn.<br>(2) Rhaid i adroddiadau o’r fath gael eu gwneud yn chwarterol.<br>(3) Nid yw’r gofyniad ym mharagraff (2) yn gymwys pan fo’r darparwr gwasanaethau maethu yn unigolyn. | • Bydd gan yr unigolyn cyfrifol systemau a phrosesau ar waith sy'n darparu gwybodaeth am y gwasanaeth ac unrhyw feysydd lle y gall fod angen arsylwi/ystyriaeth fwy gofalus a/neu wella. Mae hyn yn cynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i'r canlynol:<br>○ trosiant staff<br>○ lefelau salwch staff<br>○ cwynion<br>○ materion diogelu<br>○ adroddiadau arolygu gan reoleiddiwr y gwasanaeth<br>○ canlyniadau arolygiadau a neu adroddiadau gan yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch, a'r gwasanaeth tân.<br><br>• Bydd gan yr unigolyn cyfrifol drefniadau addas i roi gwybod ar unwaith i’r darparwr gwasanaethau maethu os bydd y |

DRAFT

| | |
|---|---|
| | gwasanaethau maethu:<br>○ yn methu â chydymffurfio â pholisïau a gweithdrefnau<br>○ yn methu â chyflawni neu roi sylw i faterion a godwyd mewn adroddiadau arolygu neu os na all wneud hynny<br>○ yn darparu gwasanaeth nad yw wedi'i gynnwys yn y datganiad o ddiben. |
| **Rheoliad 68** | **Canllawiau** |
| **Adroddiadau eraill i’r darparwr gwasanaethau maethu annibynnol**<br><br>68—(1) Rhaid i’r unigolyn cyfrifol, yn ddi-oed, adrodd i’r darparwr gwasanaethau maethu annibynnol—<br>(a) am unrhyw bryderon ynghylch rheoli neu ddarparu’r gwasanaeth,<br>(b) am unrhyw newidiadau sylweddol i’r ffordd y caiff y gwasanaeth ei reoli neu ei ddarparu, ac<br>(c) am unrhyw bryderon nad yw’r gwasanaeth yn cael ei ddarparu yn unol â’r datganiad o ddiben ar gyfer y gwasanaeth.<br>(2) Nid yw’r gofyniad ym mharagraff (1) yn gymwys pan fo’r darparwr gwasanaethau maethu annibynnol yn unigolyn. | • Bydd yr unigolyn cyfrifol yn sicrhau bod trefniadau addas ar waith i roi gwybod i’r darparwr gwasanaethau maethu yn unol â gofynion Rheoliadau 68 a 72.<br><br>• Bydd gan yr unigolyn cyfrifol system ar waith i gyflwyno adroddiadau i'r darparwr gwasanaethau maethu sy'n adlewyrchu'n gywir ansawdd a pherfformiad y gwasanaethau maethu yn gyffredinol. Bydd hyn yn cynnwys trefniadau i’r unigolyn cyfrifol roi adborth ac i roi gwybod am unrhyw faterion brys y mae gofyn cymryd camau yn eu cylch ar unwaith. Mae hyn yn cynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i'r canlynol:<br>○ marwolaeth annisgwyl neu heb esboniad plant neu rieni maeth sy'n defnyddio'r gwasanaeth maethu<br>○ afreoleidd-dra ariannol<br>○ pryderon sylweddol a godwyd gan reoleiddiwr y gwasanaeth neu'r comisiynwyr;<br>○ unrhyw ddigwyddiad, sy'n effeithio ar y staff sydd ar gael. |

DRAFT

| Rheoliad 69 | Canllawiau |
|---|---|
| **Dyletswydd i sicrhau bod systemau yn eu lle i gofnodi digwyddiadau a chwynion**<br><br>69. Rhaid i’r unigolyn cyfrifol sicrhau bod systemau effeithiol yn eu lle i gofnodi digwyddiadau, cwynion a materion y mae rhaid gwneud hysbysiadau yn eu cylch yn unol â rheoliadau 8 a 77 | • Bydd yr unigolyn cyfrifol yn sicrhau bod trefniadau addas ar waith ar gyfer cofnodi'r materion a restrir yn rheoliadau 8 a 77.<br><br>• Bydd gan yr unigolyn cyfrifol systemau a phrosesau ar waith i sicrhau bod unrhyw gofnodion yn cael eu cadw, eu bod yn ddarllenadwy ac yn gywir. |
| **Rheoliad 70** | **Canllawiau** |
| **Dyletswydd i sicrhau bod systemau yn eu lle ar gyfer cadw cofnodion**<br><br>70. Rhaid i’r unigolyn cyfrifol sicrhau bod systemau effeithiol yn eu lle mewn perthynas â’r cofnodion y mae rhaid eu cadw o dan reoliad 34, sy’n cynnwys systemau ar gyfer sicrhau bod cofnodion yn gywir ac yn gyflawn. | • Os bydd y cofnodion yn cael eu storio’n electronig, byddant yn ddiogel a bydd gan y staff godau mynediad unigol sy'n creu trywydd archwilio clir a fydd yn dangos pwy sydd wedi cofnodi gwybodaeth ac wedi diwygio. |
| **Rheoliad 71** | **Canllawiau** |
| **Ymgysylltu â phlant ac eraill**<br><br>71—(1) Rhaid i’r unigolyn cyfrifol roi trefniadau addas yn eu lle ar gyfer cael safbwyntiau—<br>(a) unrhyw blentyn sydd wedi ei leoli gan y darparwr | • Bydd gan yr unigolyn cyfrifol drefniadau addas i alluogi adborth ar bob agwedd ar y gwasanaeth a ddarperir a sicrhau bod y trefniadau hyn yn hygyrch, ac yn cynnwys pob un o’r rheini a restrir o dan reoliad 71(1).<br><br>• Bydd yr unigolyn cyfrifol yn sicrhau bod y dulliau a ddefnyddir |

DRAFT

| | |
|---|---|
| gwasanaethau maethu annibynnol,<br>(b) rhieni unrhyw blentyn o'r fath, oni bai bod hyn yn amhriodol neu'n anghyson â llesiant y plentyn,<br>(c) rhieni maeth,<br>(d) yr awdurdod lleoli, ac<br>(e) staff sy'n cael eu cyflogi yn y gwasanaeth<br>ar ansawdd y gofal a'r cymorth a ddarperir i blant a sut y gellir gwella hyn.<br>(2)Rhaid i'r unigolyn cyfrifol adrodd am y safbwyntiau a geir i'r darparwr gwasanaethau maethu annibynnol er mwyn i'r safbwyntiau hyn allu cael eu hystyried gan y darparwr wrth wneud unrhyw benderfyniadau ar gynlluniau ar gyfer gwella ansawdd y gofal a'r cymorth a ddarperir gan y gwasanaeth | i gysylltu ag unigolion sy'n defnyddio'r gwasanaeth maethu, ac i gael eu barn, yn briodol i'w hoed, lefel eu dealltwriaeth ac yn ystyried unrhyw gyflwr penodol neu angen o ran cyfathrebu.<br><br>• Bydd gan yr unigolyn cyfrifol berthynas gadarnhaol â phobl y tu allan i'r gwasanaeth, a bydd ar gael yn hwylus i'r bobl hynny. Mae hyn yn cynnwys, ond nid yw'n gyfyngedig i'r canlynol:<br>○ unrhyw riant i blentyn a leolir gyda darparwr y gwasanaeth<br>○ rhieni maeth<br>○ awdurdodau lleoli<br>○ rheoleiddwyr<br>○ cyrff proffesiynol. |
| **Rheoliad 72** | **Canllawiau** |
| **Adolygiad o ansawdd**<br>72—(1) Rhaid i'r unigolyn cyfrifol roi trefniadau addas yn eu lle i sefydlu a chynnal system ar gyfer monitro ac adolygu ansawdd y gwasanaeth.<br>(2) Rhaid i'r system a sefydlir o dan baragraff (1) wneud darpariaeth i ansawdd y gwasanaeth gael ei adolygu mor aml ag sy'n ofynnol ond o leiaf bob chwe mis.<br>(3) Fel rhan o unrhyw adolygiad a gynhelir, rhaid i'r unigolyn cyfrifol wneud trefniadau ar gyfer—<br>(a) ystyried canlyniad yr ymgysylltiad â phlant ac eraill, fel | • Bydd gan yr unigolyn cyfrifol drefniadau addas ar waith i asesu, monitro a gwella ansawdd a diogelwch y gwasanaeth maethu. Mae hyn yn cynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i'r canlynol:<br>○ casglu a dadansoddi'r adborth gan y rheini a restrir o dan reoliad 71(1)<br>○ materion a gwersi a ddysgwyd wrth ddadansoddi cwynion a materion diogelu<br>○ patrymau a thueddiadau a nodwyd drwy ddadansoddi hysbysiadau, materion diogelu, pryderon a chwynion chwythu'r chwiban<br>○ canlyniad unrhyw adroddiadau arolygu gan reoleiddwyr |

DRAFT

| | |
|---|---|
| sy'n ofynnol gan reoliad 71 (ymgysylltu â phlant ac eraill),<br>(b) dadansoddi'r data cyfanredol ar hysbysiadau, materion diogelu, pryderon chwythu'r chwiban a chwynion,<br>(c) adolygu unrhyw gamau gweithredu a gymerir mewn perthynas â chwynion, a<br>(d) ystyried canlyniad unrhyw archwiliad o gywirdeb a chyflawnrwydd cofnodion.<br>(4) Ar ôl cwblhau adolygiad o ansawdd y gwasanaeth yn unol â'r rheoliad hwn, rhaid i'r unigolyn cyfrifol lunio adroddiad i'r darparwr gwasanaethau maethu annibynnol y mae rhaid iddo gynnwys—<br>(a) asesiad o safon y gofal a'r cymorth a ddarperir, a<br>(b) argymhellion ar gyfer gwella'r gwasanaeth.<br>(5) Nid yw'r gofyniad ym mharagraff (4) yn gymwys pan fo'r darparwr gwasanaethau maethu annibynnol yn unigolyn. | o canlyniad ymweliadau gan yr unigolyn cyfrifol i fonitro'r gwasanaeth;<br>o archwiliadau o gyfrifon.<br>• Mae'r unigolyn cyfrifol yn sicrhau bod y systemau a'r prosesau archwilio ar gyfer monitro ac adolygu'r gwasanaeth yn rhoi sicrwydd bod gwasanaeth o ansawdd uchel yn cael ei ddarparu.<br>• Bydd gan yr unigolyn cyfrifol drefniadau addas ar waith i sicrhau y gwrandewir ar bob adborth, a'i gofnodi ac ymateb iddo fel sy'n briodol.<br>• Bydd gan yr unigolyn cyfrifol drefniadau addas ar waith i sicrhau bod meysydd dysgu yn sgil cwynion, diogelu a chwythu'r chwiban yn cael eu rhannu gyda'r staff i wella'r gwasanaeth ac i annog arferion diogel a thosturiol ym maes gofal.<br>• Bydd yr unigolyn cyfrifol yn sicrhau bod gwybodaeth yn cael ei dadansoddi a bod argymhellion yn cael eu gwneud i'r darparwr gwasanaethau ynghylch sut ac ymhle y gellir gwella ansawdd a diogelwch y gwasanaethau maethu. Bydd yr adroddiad, sy'n cynnwys y wybodaeth sydd wedi bod yn sail iddo (yn ymwneud â'r meysydd hynny a nodir uchod) yn llywio neu'n ffurfio rhan o'r datganiad cydymffurfio i'w cynnwys yn natganiad blynyddol y darparwr gwasanaethau. |

DRAFT

| Rheoliad 73 | Canllawiau |
|---|---|
| **Datganiad o gydymffurfedd â'r gofynion o ran safonau gofal a chymorth**<br><br>73—(1) Rhaid i'r unigolyn cyfrifol lunio'r datganiad y mae'n ofynnol iddo gael ei gynnwys yn y datganiad blynyddol o dan adran 10(2)(b) o Ddeddf 2016.<br>(2) Wrth lunio'r datganiad, rhaid i'r unigolyn cyfrifol roi sylw i'r asesiad o safon y gofal a'r cymorth a gynhwysir yn yr adroddiad a lunnir yn unol â rheoliad 72(4). | • Bydd yr unigolyn cyfrifol wedi paratoi'r wybodaeth a ddarperir yn y datganiad cydymffurfio a datganiad blynyddol y darparwr gwasanaethau maethu, a bydd yn atebol am ei hansawdd a'i chywirdeb. |
| **Rheoliad 74** | **Canllawiau** |
| **Dyletswydd i sicrhau bod polisïau a gweithdrefnau yn gyfredol**<br><br>74. Rhaid i'r unigolyn cyfrifol roi trefniadau addas yn eu lle i sicrhau bod polisïau a gweithdrefnau'r darparwr gwasanaethau maethu annibynnol yn cael eu cadw'n gyfredol, gan roi sylw i'r datganiad o ddiben. | • Bydd yr unigolyn cyfrifol yn sicrhau bod trefniadau addas ar waith i adolygu polisïau a gweithdrefnau yn unol â rheoliad 35, yn unol â'r Rheoliadau hyn.<br><br>• Bydd yr unigolyn cyfrifol yn sicrhau bod trefniadau addas ar waith fel bod staff a rhieni maeth yn gallu cael gafael ar y polisïau a'r gweithdrefnau i'w helpu i sicrhau'r canlyniadau gorau posibl i'r plentyn, a'u bod yn gwybod am y polisïau a'r gweithdrefnau hynny ac yn eu deall |
| **Rheoliad 75** | **Canllawiau** |
| **Cymorth ar gyfer codi pryderon**<br><br>75. Rhaid i'r unigolyn cyfrifol sicrhau y cydymffurfir â pholisi | • Bydd yr unigolyn cyfrifol yn sicrhau bod trefniadau addas ar waith fel bod:<br>  ○ staff, rhieni maeth a phlant yn ymwybodol o'r polisi chwythu'r chwiban ac yn ei ddeall |

DRAFT

| | |
|---|---|
| chwythu chwiban y darparwr a bod y trefniadau i alluogi a chefnogi pobl sy'n gweithio yn y gwasanaeth a rhieni maeth i godi pryderon o'r fath yn cael eu gweithredu'n effeithiol. | ○ sicrhau bod staff, rhieni maeth a phlant yn deall bod croeso ac anogaeth iddynt fynegi pryderon, ac na fydd hynny'n cael ei anwybyddu. |
| **Rheoliad 76** | **Canllawiau** |
| **Dyletswydd gonestrwydd**<br><br>76. Rhaid i'r unigolyn cyfrifol weithredu mewn ffordd agored a thryloyw gydag—<br>(a) unrhyw blentyn sydd wedi ei leoli gan y darparwr gwasanaethau maethu annibynnol,<br>(b) rhieni unrhyw blentyn o'r fath,<br>(c) rhieni maeth a darpar rieni maeth,<br>(d) yr awdurdod lleoli. | • Bydd yr unigolyn cyfrifol yn gweithredu mewn modd agored a thryloyw gan sicrhau bod trefniadau addas ar waith yn unol â gofynion rheoliad 9. |
| **Rheoliad 77** | **Canllawiau** |
| **Hysbysiadau**<br><br>**77—**(1) Rhaid i'r unigolyn cyfrifol hysbysu Gweinidogion Cymru am y digwyddiadau a bennir yn Atodlen 5.<br>(2) Rhaid i'r hysbysiadau sy'n ofynnol gan baragraff (1) gynnwys manylion y digwyddiad.<br>(3) Oni nodir fel arall, rhaid i hysbysiadau gael eu gwneud yn ddi-oed ac yn ysgrifenedig.<br>(4) Rhaid i hysbysiadau gael eu gwneud yn y modd a'r ffurf sy'n ofynnol gan Weinidogion Cymru. | • Bydd gan yr unigolyn cyfrifol drefniadau addas i roi gwybod i reoleiddiwr y gwasanaeth am ddigwyddiadau a nodir yn Atodlen 5 y Rheoliadau. |

DRAFT

## Pennod 5: Dyletswyddau rheolwyr gwasanaethau maethu'r 'r awdurdodau lleol (Rhan 13 o'r Rheoliadau)

**Mae'r bennod hon yn gymwys i wasanaethau maethu'r awdurdodau lleol yn unig. Nodir dyletswyddau unigolion cyfrifol ar gyfer darparwyr gwasanaethau maethu annibynnol ym mhennod 4 o'r ddogfen hon.**

Mae Rhan 6 o'r Rheoliadau'n disgrifio'r dyletswyddau y mae rhaid i'r rheolwr sydd wedi'i gyflogi gan y gwasanaeth maethu eu cyflawni. Mae'r rhain yn cynnwys cyfrifoldebau sy'n ymwneud â goruchwylio digonedd adnoddau, gwneud adroddiadau i'r darparwr gwasanaethau maethu, sicrhau bod systemau'n bodoli i gofnodi cwynion ac ar gyfer cadw cofnodion a sicrhau bod polisïau a gweithdrefnau'n gyfleus. Rhaid i'r Rheolwr Gwasanaethau Maethu sefydlu trefn addas i ymgysylltu â phlant, rhieni, rhieni maeth a staff ac mae'n gyfrifol am drefnu adolygiadau ansawdd gofal.

DRAFT

| Rheoliad 79 | Cod ymarfer |
|---|---|
| **Goruchwylio digonolrwydd adnoddau**<br><br>79—(1) Rhaid i reolwr yr awdurdod lleol adrodd i ddarparwr gwasanaethau maethu'r awdurdod lleol am ddigonolrwydd yr adnoddau sydd ar gael i ddarparu'r gwasanaeth yn unol â gofynion y Rheoliadau hyn.<br><br>(2) Rhaid i adroddiadau o'r fath gael eu gwneud yn chwarterol. | • Bydd gan y darparwr gwasanaethau maethu systemau a phrosesau ar waith i helpu'r rheolwr Gwasanaethau maethu i ddarparu gwybodaeth am y gwasanaeth ac unrhyw feysydd lle y gall fod angen arsylwi/ystyriaeth fwy gofalus a/neu wella. Mae hyn yn cynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i'r canlynol:<br>o trosiant staff<br>o lefelau salwch staff<br>o cwynion<br>o materion diogelu<br>o adroddiadau arolygu gan reoleiddiwr y gwasanaeth<br>o canlyniadau arolygiadau a neu adroddiadau gan yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch, a'r gwasanaeth tân.<br><br>• Mae gan y darparwr gwasanaethau maethu drefniadau addas i alluogi'r rheolwr gwasanaethau maethu i rybuddio pennaeth y Gwasanaeth ac uwch swyddogion perthnasol eraill lle bo'r gwasanaeth maethu:<br>o yn methu â chydymffurfio â pholisïau a gweithdrefnau<br>o yn methu â chyflawni neu roi sylw i faterion a godwyd mewn adroddiadau arolygu neu os na all wneud hynny<br>o yn darparu gwasanaeth nad yw wedi'i gynnwys yn y datganiad o ddiben. |
| | |

DRAFT

| Rheoliad 80 | Cod ymarfer |
| --- | --- |
| **Adroddiadau eraill i ddarparwr gwasanaethau maethu'r awdurdod lleol**<br>80. Rhaid i reolwr yr awdurdod lleol, yn ddi-oed, adrodd i'r darparwr—<br>(a) am unrhyw bryderon ynghylch darparu'r gwasanaeth,<br>(b) am unrhyw newidiadau sylweddol i'r ffordd y caiff y gwasanaeth ei reoli neu ei ddarparu, ac<br>(c) am unrhyw bryderon nad yw'r gwasanaeth yn cael ei ddarparu yn unol â'r datganiad o ddiben ar gyfer y gwasanaeth. | • Mae gan y darparwr gwasanaethau maethu drefniadau addas i alluogi'r rheolwr gwasanaethau maethu i adrodd i bennaeth y gwasanaeth ac uwch swyddogion eraill yr awdurdod yn unol â gofynion rheoliadau 80 ac 85 (adolygiad ansawdd gofal).<br><br>• Bydd gan y darparwr gwasanaethau maethu system ar waith i gyflwyno adroddiadau gan y rheolwr gwasanaethau maethu sy'n adlewyrchu'n gywir ansawdd a pherfformiad y gwasanaeth yn gyffredinol. Bydd hyn yn cynnwys trefniadau i'r Rheolwr gwasanaethau maethu roi adborth ac i roi gwybod am unrhyw faterion brys y mae gofyn cymryd camau yn eu cylch ar unwaith. Mae hyn yn cynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i'r canlynol:<br>o marwolaeth annisgwyl neu heb esboniad plant neu rieni maeth sy'n defnyddio'r gwasanaeth maethu<br>o afreoleidd-dra ariannol<br>o pryderon sylweddol a godwyd gan reoleiddiwr y gwasanaeth neu'r comisiynwyr<br>o unrhyw ddigwyddiad, sy'n effeithio ar y staff sydd ar gael. |
| | |

DRAFT

| Rheoliad 81 | Cod ymarfer |
|---|---|
| **Dyletswydd i sicrhau bod systemau yn eu lle i gofnodi cwynion**<br><br>81. Rhaid i reolwr yr awdurdod lleol sicrhau bod systemau effeithiol yn eu lle i gofnodi cwynion. | • Mae'r rheolwr gwasanaethau maethu'n ymwybodol o'r gweithdrefn gwyno yn rheoliad 41 ac yn cydymffurfio â hi. |
| **Rheoliad 82** | **Cod ymarfer** |
| **Dyletswydd i sicrhau bod systemau yn eu lle ar gyfer cadw cofnodion**<br><br>82. Rhaid i reolwr yr awdurdod lleol sicrhau bod systemau effeithiol yn eu lle mewn perthynas â'r cofnodion y mae rhaid eu cadw yn unol â rheoliad 34, sy'n cynnwys systemau ar gyfer sicrhau bod cofnodion yn gywir ac yn gyflawn. | • Os bydd y cofnodion yn cael eu storio'n electronig, byddant yn ddiogel a bydd gan y staff godau mynediad unigol sy'n creu trywydd archwilio clir a fydd yn dangos pwy sydd wedi cofnodi gwybodaeth ac wedi diwygio. |
| **Rheoliad 83** | **Cod ymarfer** |
| **Dyletswydd i sicrhau bod polisïau a gweithdrefnau yn gyfredol**<br><br>83. Rhaid i reolwr yr awdurdod lleol roi trefniadau addas yn eu lle i sicrhau bod polisïau a gweithdrefnau'r darparwr yn cael eu cadw'n gyfredol, gan roi sylw i'r datganiad o ddiben ar gyfer gwasanaeth maethu'r awdurdod lleol. | • Mae'r rheolwr gwasanaethau maethu yn sicrhau bod y polisïau a'r gweithdrefnau yn rheoliadau 35 i 42 yn cael eu cadw'n gyfoes. |

DRAFT

| **Rheoliad 84** | **Cod ymarfer** |
|---|---|
| **Ymgysylltu â phlant ac eraill**<br><br>84—(1) Rhaid i reolwr yr awdurdod lleol roi trefniadau addas yn eu lle ar gyfer cael safbwyntiau—<br>(a) unrhyw blentyn sydd wedi ei leoli gan ddarparwr gwasanaethau maethu'r awdurdod lleol,<br>(b) rhieni unrhyw blentyn o'r fath, oni bai bod hyn yn amhriodol neu'n anghyson â llesiant y plentyn,<br>(c) rhieni maeth, a<br>(d) staff sy'n cael eu cyflogi yn y gwasanaeth<br>ar ansawdd y gofal a'r cymorth a ddarperir a sut y gellir gwella hyn.<br>(2) Rhaid i reolwr yr awdurdod lleol adrodd am y safbwyntiau a geir i ddarparwr gwasanaethau maethu'r awdurdod lleol er mwyn i'r safbwyntiau hyn allu cael eu hystyried gan y darparwr wrth wneud unrhyw benderfyniadau ar gynlluniau ar gyfer gwella ansawdd y gofal a'r cymorth a ddarperir gan y gwasanaeth. | • Mae gan y rheolwr gwasanaethau maethu drefniadau addas i alluogi adborth ar bob agwedd ar y gwasanaeth a ddarperir a sicrhau bod y trefniadau hyn yn hygyrch, ac yn cynnwys pob un o'r rheini a restrir o dan reoliad 84(1).<br><br>• Bydd y rheolwr gwasanaethau maethu yn sicrhau bod y dulliau a ddefnyddir i gysylltu ag unigolion sy'n defnyddio'r gwasanaeth, ac i gael eu barn, yn briodol i'w hoed, lefel eu dealltwriaeth ac yn ystyried unrhyw gyflwr penodol neu angen o ran cyfathrebu.<br><br>• Bydd gan y rheolwr Gwasanaethau Maethu berthynas gadarnhaol â phobl y tu allan i'r gwasanaeth, a bydd ar gael yn hwylus i'r bobl hynny. Mae hyn yn cynnwys, ond nid yw'n gyfyngedig i'r canlynol:<br>○ unrhyw riant i blentyn a leolir gyda darparwr y gwasanaethau maethu<br>○ rhieni maeth<br>○ awdurdodau lleoli<br>○ rheoleiddwyr<br>○ cyrff proffesiynol. |
| **Rheoliad 85** | **Cod Ymarfer** |

DRAFT

**Adolygiad o ansawdd y gofal**

85 – (1) Rhaid i reolwr yr awdurdod lleol roi trefniadau addas yn eu lle i sefydlu a chynnal system ar gyfer monitro, adolygu a gwella ansawdd a ddarperir gan wasanaeth maethu'r awdurdod lleol.

(2) Rhaid i'r system a sefydlir o dan baragraff (1) wneud darpariaeth i ansawdd y gofal a'r cymorth gael ei adolygu mor aml ag sy'n ofynnol ond o leiaf bob 12 mis.

- Bydd gan y rheolwr gwasanaethau maethu drefniadau addas ar waith i asesu, monitro a gwella ansawdd a diogelwch y gwasanaeth maethu. Mae hyn yn cynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i'r canlynol:
    - casglu a dadansoddi'r adborth gan y rheini a restrir o dan reoliad 84(1)
    - materion a gwersi a ddysgwyd wrth ddadansoddi cwynion a materion diogelu
    - patrymau a thueddiadau a nodwyd drwy ddadansoddi hysbysiadau, materion diogelu, pryderon a chwynion chwythu'r chwiban
    - canlyniad unrhyw adroddiadau arolygu gan reoleiddwyr
    - canlyniad ymweliadau gan y rheolwr Gwasanaethau Maethu i fonitro'r gwasanaeth maethu
    - archwiliadau o gyfrifon.

- Mae'r rheolwr gwasanaethau maethu yn sicrhau bod y systemau a'r prosesau archwilio ar gyfer monitro ac adolygu'r gwasanaeth maethu yn rhoi sicrwydd bod gwasanaeth o ansawdd uchel yn cael ei ddarparu.

- Mae gan y rheolwr Gwasanaethau Maethu drefniadau addas ar waith i sicrhau y gwrandewir ar bob adborth, a'i gofnodi ac ymateb iddo fel sy'n briodol.

- Mae gan y rheolwr Gwasanaethau Maethu drefniadau addas ar waith i sicrhau bod meysydd dysgu yn sgil cwynion, diogelu a chwythu'r chwiban yn cael eu rhannu gyda'r staff i wella'r gwasanaeth ac i annog arferion diogel a thosturiol ym maes gofal.

DRAFT

| | |
|---|---|
| | • Mae'r rheolwr Gwasanaethau Maethu yn bod gwybodaeth yn cael ei dadansoddi a bod argymhellion yn cael eu gwneud i'r darparwr gwasanaethau maethu ynghylch sut ac ymhle y gellir gwella ansawdd a diogelwch y gwasanaeth maethu. Bydd yr adroddiad, sy’n cynnwys y wybodaeth sydd wedi bod yn sail iddo (yn ymwneud â’r meysydd hynny a nodir uchod) yn llywio neu'n ffurfio rhan o'r datganiad cydymffurfio i'w cynnwys yn natganiad blynyddol y darparwr gwasanaethau maethu. |
| **Rheoliad 86** | **Cod ymarfer** |
| **Cymorth ar gyfer codi pryderon**<br><br>86. Rhaid i reolwr yr awdurdod lleol sicrhau y cydymffurfir â pholisi chwythu chwiban darparwr gwasanaethau maethu’r awdurdod lleol a bod y trefniadau i alluogi a chefnogi pobl sy’n gweithio yn y gwasanaeth a rhieni maeth i godi pryderon o’r fath yn cael eu gweithredu’n effeithiol. | • Bydd y rheolwr gwasanaethau maethu yn sicrhau bod trefniadau addas ar waith fel bod:<br>○ staff, rhieni maeth a phlant yn ymwybodol o'r polisi chwythu’r chwiban ac yn ei ddeall<br>○ sicrhau bod staff, rhieni maeth a phlant yn deall bod croeso ac anogaeth iddynt fynegi pryderon, ac na fydd hynny'n cael ei anwybyddu. |

DRAFT